

Llangollen: Deall Nodweddion Trefol



 Cadw



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

 Cadw



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000
E-bost: cadw@wales.gsi.gov.uk

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2016
Print ISBN 978 1 85760 379 8
Digidol ISBN 978 1 85760 380 4
© Hawlfraint y Goron 2016, Cadw, Llywodraeth Cymru
WG26217

OGL

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3> neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid ceisio caniatâd deiliad yr hawlfraint briodol, gan gynnwys Archifau Sir Ddinbych, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Lockmaster Maps, y Cofnod Adeiladau Cenedlaethol, Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru,, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Casgliad Francis Frith, a Llywodraeth Cymru (Cadw).

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda.



Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda.

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Llangollen:
Deall Nodweddion
Trefol

Cydnabyddiaethau

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)
a ddarparodd y lluniau ar gyfer yr astudiaeth hon.
Maent ar gael drwy Coflein yn www.coflein.gov.uk.
Hoffai Cadw hefyd gydnabod help Cofnod
Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC) a wnaeth
fenthycu deunydd gan CHCC a'r Cofnod Adeiladau
Cenedlaethol; Archifau Sir Ddinbych a Lockmaster
Maps www.lockmastermaps.co.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	5	Ardaloedd â Nodweddion	53
Nodau'r Astudiaeth	5	1. Y Dref Gynnar	53
		Cefndir Hanesyddol	53
		Nodweddion Adeiladu	54
Cefndir Hanesyddol	6	2. Twf yn y 19eg Ganrif: O amgylch y Gamlas a'r Rheilffordd	56
Hanes a Thwf Cynnar	6	Cefndir Hanesyddol	56
Twrstiaeth a'r Mudiad Pictiwreŷg	9	Nodweddion Adeiladu	58
Ffyrdd, Camlesi a Rheilffyrdd	11	3. Twf yn y 19eg Ganrif: Ffordd Caergybi	59
Tref Ffyniannus Oes Fictoria	15	Cefndir Hanesyddol	59
Yr 20fed Ganrif	17	Nodweddion Adeiladu	61
		4. Plas Newydd	63
Tirwedd Hanesyddol	19	Cefndir Hanesyddol	63
Tirwedd a Lleoliad	19	Nodweddion Adeiladu	64
Strwythur y Dref Gynnar	20	5. Heol y Castell a'r Dref Orllewinol	65
Datblygu ac Ehangu yn y 19eg Ganrif	24	Cefndir Hanesyddol	65
Tirwedd a Strwythur Cymdeithasol	27	Nodweddion Adeiladu	67
		6. Y Gamlas	69
Nodweddion Adeiladu	29	Cefndir Hanesyddol	69
Cronoleg Datblygu	29	Nodweddion Adeiladu	70
Mathau o Adeiladau	30	Datganiad Pwysigrwydd	71
Trafnidiaeth	30		
Eglwysi a Chapeli	34	Ffynonellau Dethol	72
Adeiladau Masnachol a Dinesig	35		
Adeiladau Diwydiannol	44	Ôl-nodion	73
Adeiladau Domestig	46		
Adeiladau Modern	50		
Deunyddiau a Manylion Adeiladu	51		
Codi waliau	51		
Toeon	52		
Gwaith Saer	52		

Rhestr o Fapiau tudalennau 75–86

1. 1791 Arolwg o Langollen
2. Map y Degwm Cyfansawdd o Langollen 1838–45
3. Rhan o Argraffiad Cyntaf y Map Arolwg Ordnans o 1874
4. Rhan o Ail Argraffiad y Map Arolwg Ordnans o 1912
5. Pob Ardal â Nodweddion â Dynodiadau'r Amgylchedd Hanesyddol
6. Pob Ardal â Nodweddion
7. Y Dref Gynnar (1)
8. Twf yn y 19eg Ganrif: O amgylch y Gamlas a'r Rheilffordd (2)
9. Twf yn y 19eg Ganrif: Ffordd Caergybi (3)
10. Plas Newydd (4)
11. Heol y Castell a'r Dref Orllewinol (5)
12. Y Gamlas (6)

Cyflwyniad

Nodau'r Astudiaeth

Mae nodweddion hanesyddol wrth wraidd natur unigryw leol ac mae'n helpu i greu ymdeimlad o frogarwch. Mae gan bob lle hanes unigryw, felly mae gan bob lle nodweddion hanesyddol unigryw. Mae nodweddu trefol yn diffinio nodweddion hanesyddol unigryw trefi unigol ac yn nodi amrywiaeth y nodweddion ynddynt. Mae'n edrych ar hanes tref ac yn nodi ei mynegiant mewn patrymau gofod a chysylltiadau ac mewn traddodiadau adeiladu, sy'n rhan hanfodol o nodweddion hanesyddol.

Mae nodweddu trefol yn gallu ein helpu i ddefnyddio nodweddion hanesyddol i greu llefydd cynaliadwy a nodedig ar gyfer y dyfodol. Ei nod yw disgrifio ac egluro nodweddion hanesyddol trefi, rhoi ffocws i natur unigryw leol a helpu i wireddu gwerth llawn yr amgylchedd hanesyddol. Ei nod

yw llywio a chefnogi rhaglenni cynllunio, adfywio a chadwraeth cadarnhaol, helpu i wella ansawdd cyngor cynllunio, a chyfrannu at strategaethau dehongli ac addysgu lleol. Mae ymateb i nodweddion lleol yn amcan sy'n bwysig i gynllun da; gall ei gynnal gyflwyno buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Nid yw'r astudiaeth hon o nodweddion hanesyddol Llangollen wedi'i chyfyngu i'r ardal gadwraeth ac mae'n amrywio o'i rhannau cynharaf i ddatblygiadau mwy modern. Gellir defnyddio'r astudiaeth hon i lywio datblygiad yn y dyfodol o fewn y dref a'r cyffiniau. Dylai helpu i lywio'r gwaith o reoli newid mewn adeiladau rhestredig ac anrhestredig o fewn yr ardal gadwraeth yn ogystal â gweithredu fel canllaw ar gyfer materion dylunio yn yr ardal gadwraeth a thu hwnt. Dylai cynnwys ardal astudio y tu hwnt i'r craidd hanesyddol ddangos sut y gall gwaith datblygu effeithio ar nodweddion yr ardal ehangach. Dylai hyn hefyd gael ei ystyried wrth archwilio cynigion cynllunio.

Mae Castell Dinas Brân, a sefydlwyd oddeutu 1260, yn edrych dros dref hanesyddol Llangollen (© Hawlfraint y Goron (2016) Cadw).



Cefndir Hanesyddol



Eglwys St Collen, Llangollen, ar safle'r eglwys o'r chweched neu'r seithfed ganrif (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Hanes a Thwf Cynnar

Datblygodd teyrnas Powys ar ôl diwedd rheolaeth y Rhufeiniaid ym Mhrydain. Ymestynnai ar draws y rhan fwyaf o bedrant gogledd-ddwyreiniol Cymru fodern, o Fynyddoedd Cambria i Orllewin Canolbarth Lloegr. Goroedd dresmasu parhaus o Mersia i'r dwyrain a newidiadau breninlinol mewnol hyd nes i'r Normaniaid oresgyn yr ardal ddiwedd yr I leg ganrif pan amsugnwyd rhannau ohono'n Ororau Cymru. Parhau a wnaeth yr ymgiprys am bŵer rhwng y Cymry a'r Eingl-Normaniaid, ond erbyn canol y I 3eg ganrif roedd Powys wedi rhannu'n ddwy dywysogaeth Gymreig — Powys Fadog (gogledd Powys) a Phowys Wenwynwyn (de Powys) — a wnaeth oroesi tan oresgyniad Edward yn 1283.

Mae hanes cynnar anheddiad Llangollen yn gysylltiedig â theyrnas Powys. Saif mewn man â mantais naturiol yn Nyffryn Dyfrdwy fel un o'r prif bwyntiau mynediad i mewn i Gymru o'r dwyrain. Cwyd bryniau serth i'r de a'r gogledd gan fframio dyffryn ffrwythlon lle gall afon Dyfrdwy rydio.

Cafodd eglwys ei sefydlu yma gan Sant Collen yn y chweched neu'r seithfed ganrif. Ni wyddys beth oedd ffurf na graddau'r anheddiad ar yr adeg hon a phrin yw'r dystiolaeth bendant o weithgarwch canoloesol cynnar yn Llangollen ac o'i hamgylch. Ychydig dros 2 filltir (3km) i'r gogledd-orllewin o'r dref, mae colofn Eliseg, cofeb garreg o'r nawfed ganrif i frenin eponymaidd Powys ddiwedd yr wythfed ganrif, sy'n awgrymu y gallai teyrnas neu ystad frenhinol fod wedi bodoli yn y dyffryn. Y golofn hon yw olion damiog croes garreg a osodwyd ar garnedd o'r Oes Haearn. Er ei

bod wedi erydu bellach, cofnodwyd yr arysgrif ar y golofn yn 1696; disgrifia ysblander teyrnas Powys a sut y cafodd ei chodi gan Concenn i anrhydeddu ei hen daid Eliseg.¹

Ceir tystiolaeth fwy sylweddol i awgrymu gweithgarwch yn yr ardal erbyn dechrau'r 13eg ganrif. Gwnaeth Madog ap Gruffudd Maelor, tywysog Powys Fadog, sefydlu abaty Sistersaidd Glyn y Groes 1½ milltir (2km) i'r gogledd-orllewin o'r dref yn 1201. Oddeutu 1260, adeiladodd ei fab, Gruffudd ap Madog, Ddinas Brân, sef castell o gerrig ar safle bryngaer gynharach o'r Oes Haearn a oedd yn edrych dros y dref o'r gogledd-ddwyrain. Y castell hwn oedd canolfan weinyddol Powys Fadog a byddai wedi rheoli canolfan fasnachu yn y dref.

Gorchfygodd Edward I ogledd Cymru yn 1283 a blwyddyn yn ddiweddarach rhoddodd faenor Llangollen i Roger Mortimer. Hefyd, caniatodd farchnad wythnosol a dwy ffair flynyddol. Mae'n siŵr i hyn ffurfioli rheolaeth y Saeson dros anheddiad Cymreig sefydledig a oedd wedi'i ganolbwyntio o amgylch yr eglwys a chroesfan yr afon, ac a oedd yn gysylltiedig â'r castell.



Mae colofn Eliseg o'r nawfed ganrif yn cofnodi ysblander teyrnas Powys (© Hawlfraint y Goron (2016) Cadw).

Isod: Golygfa o Abaty Glyn y Groes yn 1804 gan John Warwick Smith. Cafodd yr abaty ei sefydlu yn 1201 gan dywysog Powys Fadog (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).



Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth ffisegol o sylfeini canoloesol Llangollen. Er bod craidd patrwm stryd y dref yn perthyn i'r cyfnod hwn fwy na thebyg — yn enwedig y bont² a phrif ffordd ddynesu Bridge Street — nid oes unrhyw ffiniau bwrdais clir wedi goroesi. Nid oes ychwaith unrhyw adeiladau cynnar o bwys, heblaw am yr eglwys. Mae'n debygol bod y dref wedi parhau i fod yn anheddiad bach tan ddiwedd y 18fed ganrif. Yn sicr, 'pentref' oedd disgrifiad John Leland ohono yn ei deithlyfr yng nghanol yr 16eg ganrif,³ a nododd Edward Lhwyd ei fod yn cynnwys 70 o dai ar ddiwedd yr 17eg ganrif.⁴ Hyd yn oed erbyn 1778, dim ond 'tref fechan a thlawd' a welai Thomas Pennant.⁵

Fodd bynnag, gwnaeth y 'pentref' hwn ddatblygu drwy gydol y 18fed a'r 19eg ganrif. Digwyddodd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi'i leoli mewn arhosfan naturiol ar y llwybr trafnidiaeth trostir rhwng Llundain a'r Amwythig i Gaerdybi ac Iwerddon, a datblygiadau mewn perthynas â'r rhwydwaith camlesi a rheilffordd a gysylltai Llangollen â marchnadoedd a phoblogaethau eraill. O'r 18fed ganrif ymlaen, dechreuodd ymwelwyr â gwerthfawrogiad cynyddol o brydferthwch tirwedd Dyffryn Llangollen ymweld â'r dref. Hefyd, tyfodd mewn ymateb i effaith y Chwyldro Diwydiannol pan achubwyd ar adnoddau calchfaen a llechi'r ardal gyfagos, a defnyddiwyd adnoddau naturiol y dref at ddibenion cynhyrchu tecstilau.

Llun o'r awyr yn dangos y bont dros afon Dyfrdwy a datblygiad y dref ar ei glan ddeheuol i'r de o'r llun (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Twristiaeth a'r Mudiad Pictiwrésg

'Llangollen is a small and poor town, seated in a most romantic spot, near a pretty common watered by the Dee, which, emblematic of its country runs with great passion through the valley. The mountains soar to a vast height above their wooded bases; and one, whose summit is crowned with the antient (sic) castle Brân, is uncommonly grand.

I know of no place in north Wales, where the refined lover of Picturesque scenes, the sentimental, or the romantic, can give a fuller indulgence to his inclination.⁶

O ddiwedd y 18fed ganrif, datblygodd tref a Dyffryn cyfagos Llangollen enw da fel cyrchfan i'r rhai a chwiliai am brydferthwch pictiwrésg. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y mudiad Pictiwrésg a'r gwerthfawrogiad o brydferthwch naturiol esthetig ei fabwysiadu'n raddol gan

ddosbarthiadau segur cymdeithas a oedd yn ei brofi drwy deithiau plaser golygfaol mewn llyfydd fel Dyffryn Gwy ac Ardal y Llynnoedd.

Daeth Llangollen yn un cyrchfan o'r fath i ymwelwyr a oedd yn chwilio am y Pictiwrésg. Drwy gyd-ddigwyddiad, arweiniodd y gwaith o ddatblygu ffordd Llundain – Caergybi drwy'r dref yn 1815 at ddenu mwy o ymwelwyr i'r ardal, gan nid yn unig ddenu llawer o bobl nodedig, ond hefyd ysbrydoli llawer o straeon gan deithwyr. Thomas Pennant, naturiaethwr o Neuadd Downing a leolwyd gerllaw yn Sir y Fflint, oedd un o'r cynharaf i ddisgrifio ei brofiadau o deithio drwy ogledd Cymru a gwnaeth ei ddisgrifiad (chwith) o Langollen a Dyffryn Dyfrdwy yn 1778 grisialu'r dref ar adeg cyn iddi newid yn sylweddol yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif.⁷

Yn yr un modd, gwnaeth yr ardal gymaint o argraff ar W. T. Simpson fel y symudodd i'r dref ar ôl cyhoeddi *Some Account of Llangollen and Its Vicinity* yn 1827. Disgrifiodd dref a chymdogaeth 'beautifully picturesque' a oedd yn 'embosomed

Llangollen from the Turnpike Road yn A Tour in Wales gan Thomas Pennant. Pennant oedd un o'r ymwelwyr cyntaf i ddisgrifio'r dref (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).



*Llun dyfrlliw diennu
o Langollen oddeutu
1780 (Cofnod Henebion
Cenedlaethol Cymru:
© Hawlfraint y Goron).*



as it is in a vale where all the beauties of nature seem to concentrate' a honnodd fod gan Langollen a Dyffryn Dyfrdwy olygfeydd mwy deniadol ac ysblennydd na'r Alpau.⁸

Lleolwyd yr awdur a'r ysgrifennydd teithio nodedig, George Borrow, yn Llangollen ganol y 19eg ganrif a chyhoeddodd ddyddiadur o'i deithiau yn *Wild Wales: Its People, Language and Scenery* yn 1862.⁹ Fodd bynnag, ymddengys fod y rhan fwyaf o deithwyr wedi gwerthfawrogi golygfeydd a lleoliad y dref yn fwy nag atyniadau'r dref ei hun. Yn 1851, disgrifiodd George Virtue 'ddisgwyliadau' uchel y teithiwr wrth iddo agosáu

at y dref, ond dywedodd '[the] interest of Llangollen itself is soon exhausted ... though there are beautiful walks up and down the banks of the river.' Roedd yn amlwg o'r fam bod mwy o ddiddordeb i'r teithiwr y tu allan i'r dref na'r tu mewn a honnodd 'the environs abound in objects at once romantic and [of] historical interest.'¹⁰

Roedd 'Merched Llangollen' yn goron ar y profiad o ymweld ag ardal naturiol brydferth. Gadawodd y Foneddiges Eleanor Butler a Miss Sarah Ponsonby eu bywyd aristocrataidd yn Iwerddon yn 1778, gan ddianc priodasau wedi'u trefnu yn ôl y sôn, a gwnaethant ymgartrefu ym

*Plas Newydd gan
W.Crane, rhwng 1835 a
1850 fwy na thebyg, cyn
i'r tŷ gael ei ailfodelu yn
ddiweddarach yn y 19eg
ganrif (Darparwyd gan
Lyfrgell Genedlaethol
Cymru).*



Mhlas Newydd yn y pen draw a leolwyd ar gyrion de-ddwyreiniol y dref. Er iddynt encilio wedi 'ymddeol' fel y'i gelwid ganddynt am yr hanner can mlynedd nesaf, gwnaethant hefyd ymestyn ac ailfodelu Plas Newydd ar ffurf Gothig hanner pren mewn gerddi a dirluniwyd yn ofalus. Daeth y tŷ a'i berchenogion yn rhan o atyniadau'r ardal ac ymwelwyd â'r ddau gan ymwelwyr nodedig a oedd yn awyddus i gwrdd â'r merched a gweld Plas Newydd a'r dirwedd o amgylch.

Er gwaethaf natur atyniadol yr ardal a'i phoblogrwydd ymhlith y dosbarthiadau segur, parhaodd y dref i fod yn un wledig. Ni allai George Borrow benderfynu p'un ai oedd yn dref fach neu'n bentref mawr. Roedd yna dafarndai a siopau, a filas mwy ffasiynol (gan gynnwys Plas Newydd) yn uwch i fyny'r bryniau i ffwrdd o'r dref, ond mae ei ddisgrifiad o dai gwyn â thoeon llechi wedi'u clystyru o amgylch yr eglwys gyffredin gyda maestref lai o faint i'r gogledd ar draws y bont hynafol yn awgrymu anheddiad nad oedd wedi newid na datblygu'n sylweddol ers ei ddyddiau cynnar fel tref ganoloesol.¹¹


Ffyrdd, Camlesi a Rheilffyrdd

Mae lleoliad Llangollen yn Nyffryn Dyfrdwy yn golygu bod y dref mewn safle allweddol ar gyfer llwybrau trafndiaeth i mewn i Gymru ac allan ohoni. Erbyn diwedd y 18fed ganrif, roedd y dref wedi datblygu o amgylch y brif ffordd a ddilynai siâp cylch drwy'r canol ar hyd Church Street a heibio i'r eglwys mor bell â Gwesty'r Hand. Yma, roedd y ffordd yn rhannu ac yn troi i'r chwith i fyny Heol y Capel i mewn i Hall Street ac i'r gorllewin ymhellach, neu'n parhau'n syth i Heol y Castell a'r bont dros afon Dyfrdwy.

Gwelwyd y newid mawr cyntaf i gysylltiadau trafndiaeth y dref ar ddechrau'r 19eg ganrif pan adeiladwyd Camlas Llangollen (rhan o Gamlas Ellesmere yn wreiddiol ac yn ddiweddarach yn rhan o Gamlas Undeb Swydd Amwythig). Ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif dechreuodd y Chwyldro

Rhan nodweddiadol o'r gamlas wrth bont Rhif 35 (Pont Millar), pont wreiddiol a adeiladwyd yn ôl dyluniadau'r peirianwyr camlesi Thomas Telford a Thomas Denson (© Hawlfraint y Goron: CBHC).





Maint rhwydwaith camlesi Caer a Llangollen. Map Rhif 8, Camlas Caer a Llangollen (Darparwyd gan Lockmaster Maps, www.lockmastermaps.co.uk).

Diwydiannol a wnaeth ddwyn ynghyd welliannau i drafnidiaeth a deunyddiau newydd â dulliau newydd o fuddsoddi a datblygu busnes. Gyda'r gwaith cynnar o adeiladu rhwydwaith camlesi, roedd Prydain mewn sefyllfa dda i gysylltu ffynonellau o ddeunyddiau crai yn y meysydd glo â chanolfannau cynhyrchu. Yn yr 20 mlynedd rhwng 1790 a 1810, adeiladwyd bron 1,200 milltir (1,920km) o ddyfrffyrdd mewndirol ym Mhrydain.¹² Esgorodd hyn ar yr angen am ddulliau a thechnegau newydd ym maes peirianneg sifil yn ogystal â datblygu cwmnïau cyfranddaliadau a chamlesi, a wnaeth annog buddsoddiad eang a thwf ym maes adeiladu camlesi.

Yn erbyn y cefndir hwn cafodd Camlas Ellesmere, a fwriadwyd yn wreiddiol i gysylltu Lerpwl â Bryste drwy Afon Hafren, ei sefydlu ddiwedd y 18fed

ganrif. Penodwyd y peiriannydd, William Jessop, gan Ellesmere Canal Company i gysylltu Caer a phorthladdoedd Mersi â rhwydwaith camlesi Canolbarth Lloegr drwy'r diwydiannau gwneud haearn a chronfeydd glo rhyng-gysylltiedig. Yn y diwedd, dewisodd Jessop lwybr i'r gamlas a gysylltai'r Waun, i'r dwyrain o Langollen, â'r camlesi o amgylch Ellesmere yn Lloegr. Cwblhawyd y llwybr hwn yn 1805 ac roedd yn cynnwys adeiladu traphynt dŵr y Waun a Phontcysyllte.

Dechreuwyd adeiladu rhan Llangollen o Bontcysyllte yn 1804. Roedd angen peiriannyddol i gysylltu'r system gamlas yn uniongyrchol ag afon Dyfrdwy ger Llangollen er mwyn sicrhau bod cyflenwad dŵr dibynadwy ar gyfer y gamlas. Penodwyd Thomas Telford, gyda chymorth

Thomas Denson, yn brif beiriannydd rhan Llangollen. Er mwyn rheoli'r llif dŵr i mewn i afon Dyfrdwy, cyflawnwyd gwaith mor bell i ffwrdd â rhagnant yr afon yn Llyn Tegid ger y Bala. Rhedai'r gamlas o'r gored bwydo wrth Raeadr y Bedol i gysylltu â Chamlas Ellesmere ym Mhontcysyllte ac agorodd yn 1808. Arweiniodd y datblygiad hwn at

agor Llangollen a Dyffryn Dyfrdwy i'r rhwydwaith camlesi cenedlaethol ehangach.

Yn 1800, unodd y Ddeddf Uno Brydain Fawr ac Iwerddon gan greu Teyrnas Unedig Prydain Fawr ac Iwerddon. Ar y pryd, roedd teithio drwy Gymru i gyrraedd porthladd Caergybi ac



Y gamlas ym Mhenddôl, oddeutu 1935. Mae'r bwthyn ar y dde yn dyddio o ail hanner yr 17eg ganrif a saif yn llawer is na'r gamlas. Fe'i moderneiddiwyd bellach gan golli cryn dipyn o'i gymeriad (Hawlfraint: Casgliad Francis Frith).



Pont Rhif 43 ar y gamlas gyda bwthyn wrth ei hymyl (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

*Pont godi arbenigol
(Rbif 44) ar y gamlas
(© Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Pont y Brenin
yn y Berwyn
(© Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



yna lwerddon wedyn yn llafurus ac yn aml yn beryglus. Yn sgil y problemau a gafwyd ar ôl cyflwyno llwybr post lwerddon rhwng Llundain a Chaerdybi yn 1808, bu'n rhaid i Swyddfa'r Post geisio Pwyllgor Seneddol i ystyried ffordd newydd. Pasiwyd Deddf Seneddol yn 1815 i adeiladu ffordd newydd a fyddai'n cysylltu Llundain a Dulyn drwy borthladd Caerdybi. Thomas Telford a ddewiswyd yn beiriannydd ar gyfer y rhan rhwng yr Amwythig a Chaerdybi. Sefydlodd ffordd yr A5 drwy fabwysiadu ffyrdd tyrpeg lle bo modd, ond creodd ffyrdd newydd hefyd, yn enwedig yng Nghymru lle roedd llai o ffyrdd yn bodoli eisoes. Cwblhawyd ffordd Caerdybi yn 1826 pan agorwyd Pont Menai.¹³

Yn Llangollen, gwnaeth Telford osgoi'r dref i bob pwrpas drwy ddargyfeirio'r brif ffordd wrth argae'r felin ym mhen dwyreiniol y dref fel ei bod yn rhedeg ar hyd Regent Street yn lle Church Street. Croesodd y ffordd gynharach wrth gyffordd Heol y Capel/Hall Street a pharhau tua'r dwyrain i'r hyn a elwid yn Berwyn Street. Serch hynny, roedd y dref yn dal i fod yn arhosfan i deithwyr ar ffordd Caerdybi. Yn 1827, flwyddyn ar ôl ei chwblhau, disgrifiodd Simpson 'twelve licensed inns and public houses in this little town, all... very respectable' a nododd fod cerbydau a cheffylau post yn cael eu cadw yng Ngwesty'r Hand a'r King's Head — y ddwy brif dafarn.¹⁴

Ychydig dros 30 mlynedd yn ddiweddarach, cyrhaeddodd y rheilffordd Langollen fel llinell cangen o Riwabon. Wedi'i hadeiladu fel Rheilffordd Dyffryn Llangollen, a'i noddi gan Great Western Railway (GWR), gyda Henry Robertson yn beiriannydd, roedd yn agored i draffig ar ddiwedd 1861. Roedd y gwaith adeiladu wedi dechrau ym mis Medi 1859, ar ôl 12 mlynedd o drafod a dadlau ynghylch union lwybr y llinell o fewn cyfyngiadau'r band cul o dir gwastad rhwng yr afon, y gamlas a'r brynau ar ochr ogleddol y dyffryn. Lleolwyd yr orsaf wreiddiol i'r dwyrain o'i lleoliad presennol, yn agos at Fwthyn Dee. Gweithredodd fel gorsaf Ffordd Llangollen lle câi teithwyr eu trosglwyddo drwy wasanaeth cerbydau i'r dref. Yn ddiweddarach, ymestynnwyd y llinell i'r gorllewin i Gorwen ac adeiladwyd yr orsaf a'r adeiladau presennol yn 1865 fel rhan o'r gwaith hwn.

Cafodd y cynnydd hwn mewn cysylltiadau trafniadaeth â'r dref effaith nodedig ar Langollen.

Parhaodd y dref i fod yn arhosfan i deithwyr ac ymwelwyr ond, o ganol y 19eg ganrif, gallent gyrraedd drwy ddefnyddio'r ffordd, y rheilffordd neu'r gamlas. Hefyd, arweiniodd gwell trafniadaeth at ddatblygu diwydiannau lleol fel chwarel llechi a gweithgynhyrchu brethyn, a ddefnyddiodd afon Dyfrdwy at ddibenion ynni a chlodiant. Bu modd achub ar bren o'r coetir cyfagos hefyd ac yntau bellach yn gallu cael ei gludo mor hawdd.

Tref Ffyniannus Oes Fictoria

Yn sgil datblygu'r tri math o gysylltiad trafniadaeth, gwelwyd cryn newid a thwf yn Llangollen.

Parhau i ehangu a wnaeth chwarelu cerrig a llechi a gweithgynhyrchu gwlan a ffabrigau. Datblygodd twristiaeth, a oedd eisoes yn weithgarwch sefydledig, ymhellach a thyfodd y boblogaeth a'r gwasanaethau a gynigiwyd yn y dref i gyfateb i hynny. Mae masnachlyfr Slater ar gyfer 1859, sy'n rhagflaenu'r gwaith o adeiladu'r rheilffordd a'r rhan fwyaf o'r newidiadau a welwyd yn y dref yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif, yn rhestru'r rhan fwyaf o fusnesau'r dref ar hyd y strydoedd hyn mwy sefydledig: Bridge Street, Heol y Capel a Church Street.¹⁵ Fodd bynnag, mae masnachlyfr 1880 yn enwi strydoedd newydd a nifer ac amrywiaeth ehangach o fusnesau.¹⁶

Arweiniodd y twf mewn diwydiant a'r cynnydd cyfatebol yn y boblogaeth at gynydd yn nifer yr adeiladau yn y dref drwy gydol y 19eg ganrif. Mae'r rhan fwyaf o adeiladau brics coch y dref (tai, ysgolion, capeli a siopau), yn enwedig yn rhannau deheuol a gorllewinol y dref, yn perthyn i'r cyfnod hwn o dwf. Yn 1827, roedd Simpson wedi nodi bod 'one long badly paved street, and a short cross one, together with some courts and alleys' yn y dref ond, erbyn tua 1860, roedd strydoedd arfaethedig newydd wedi'u gosod allan. Crewyd Heol y Castell i redeg yn uniongyrchol i'r de o'r bont i gyffordd Regent Street/Berwyn Street, ynghyd â grid petryal newydd o strydoedd i'r gorllewin. Heol y Castell oedd y brif stryd newydd yn lle ardal hyn Bridge Street/Church Street. Sefydlwyd busnesau newydd yma a datblygwyd tai newydd yn y grid o strydoedd i'r gorllewin.

Y bont a Heol y Castell, oddeutu 1955 (Hawlfraint: Casgliad Francis Frith).



Cafodd adeiladau newydd, yr oedd eu hangen ar y dref Fictoraidd fwy ffyniannus hon, eu hadeiladu o fewn y datblygiad hwn. Sefydlwyd marchnad newydd (Smithfield ar Heol y Farchnad, sef prif faes parcio'r dref bellach) ac adeiladwyd capeli newydd (Capel y Bedyddwyr ar Heol y Castell a Ffordd yr Abaty, Capel yr Annibynwyr a Chapel y Methodistiaid ar Queen Street, Capel y Methodistiaid ar Berwyn Street a Chapel y Presbyteriaid ar Sgwâr Fictoria).

Adeiladwyd neuadd y dref yn 1867 yn yr arddull Gothig ffasiynol; hwn oedd un o'r adeiladau 'newydd' cyntaf ar Heol y Castell, wrth gyffordd Parade Street, ger craidd hŷn y dref ar ddiwedd Bridge Street. Ychwanegwyd gorsaf heddlu yn 1867, adeiladwyd ysgol newydd ar Parade Street yn 1874 a chafodd ysgol ar Regent Street, a adeiladwyd yn 1840, ei hailfodelu yn 1871.

Dde: Capel y Bedyddwyr Cymraeg Heol y Castell, a adeiladwyd yn 1860 ac sydd bellach yn cael ei ddefnyddio fel canolfan wybodaeth (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Capel yr Annibynwyr Glanrafon (Eglwys Efengylaidd Glanrafon bellach) a adeiladwyd yn 1902–03 ar Queen Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).





*Capel Methodistiaidd
Wesleiaidd Saesneg
(Eglwys Fethodistaidd
Saesneg bellach)
ar Queen Street,
a adeiladwyd yn 1903
(© Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

Manteisiwyd ar yr adnoddau cerrig a llechi yn yr ardal o amgylch Llangollen ers cyn 1700, ond yn sgil datblygu cysylltiadau camlas a rheilffordd bu modd cynyddu gweithgarwch chwarelu yn sylweddol. Datblygwyd gweithfeydd llechfaen a llechi Pentre Felin i brosesu'r llechi a chwarelwyd yn Chwarel Llechi'r Berwyn wrth Fwlch yr Oernant (Chwarel Clogau gynt) a'u llwytho ar gychod camlas i'w cludo i'r dwyrain, yn uniongyrchol heibio i Langollen. Yn yr un modd, llwyddodd pob chwarel arall yn yr ardal (Moel y Faen, Rhiw Goch, Pant Glas a Westminster) i gael budd o allu cludo ac allforio eu cynhyrchion yn haws. Cyrhaeddodd cynhyrchiant a chyflogaeth eu hanterth yn y degawdau yn dilyn datblygu'r systemau rheilffordd a chamlas.

Hefyd, datblygodd y diwydiant cynhyrchu cotwm yn y dref drwy gydol ail hanner y 19eg ganrif. Defnyddiwyd afon Dyfrdwy at ddibenion melino ers cryn amser. Er enghraifft, mae Melin Llangollen (Y Felin Yd bellach), ger y bont, yn dyddio'n ôl i 1786, ond gwyddys bod gweithgarwch melino wedi mynd rhagddo ar y safle hwn ers y 13eg ganrif. Fodd bynnag, yn sgil y cysylltiadau trafniadaeth gwell a'r datblygiadau ym maes peirianwaith a ddeilliodd o'r Chwyldro Diwydiannol, dechreuwyd defnyddio'r afon i brosesu deunyddiau crai eraill. Melinau cotwm a gwlan oedd y prif fathau a ddatblygwyd. Sefydlwyd Melin Dyfrdwy Isaf yn felin cotwm ddechrau'r 19eg ganrif ond methu a wnaeth a hynny'n gynnar. Fe'i hailddatblygwyd yn llwyddiannus yn felin wlan o'r 1840au, pan ddefnyddiwyd gwyddiau

mecanyddol newydd ynghyd â'r dechnoleg ddiweddaraf yn uniongyrchol o drefi melin Swydd Gaerhirfryn, a pharhawyd i'w defnyddio tan y 1960au. Bu'r safle mor llwyddiannus fel y gwnaeth y perchenogion, Hughes a Roberts, ehangu i Felin Dyfrdwy Uchaf yn 1855, er i gynhyrchu ddod i ben oddeutu 1920.¹⁷

Datblygiadau a gweithgarwch Fictoriaidd mewn rhannau eraill o Langollen fu'n bennaf cyfrifol am amlinelliad a ffurf y dref sydd ohoni heddiw. I'r dwyrain o'r dref, cadwyd y cynllun cynnar cyn cyflwyno'r gamlas ynghyd â'r mathau o adeiladau a deunyddiau. I'r gorllewin, datblygodd ardal dra wahanol ar hyd strydoedd newydd gydag adeiladau mewn arddulliau newydd a ddefnyddiai ddeunyddiau newydd.

Yr 20fed Ganrif

Yn yr 20fed ganrif, gwelwyd dirywiad cyffredinol yn sail weithgynhyrchu draddodiadol Llangollen gan arwain at nifer fawr o felinau a ffatrioedd segur. Caeodd Melin Dyfrdwy Uchaf fel melin wlan yn yr 1920au; goroesodd Bragdy Llangollen ac iard goed Coward tan ganol yr 20fed ganrif. Caeodd Melin Dyfrdwy Isaf yn y 1960au, fel y gwnaeth marchnad wartheg Smithfield, a ddaeth yn faes parcio. Fodd bynnag, ffynnu a wnaeth congflaen arall yr economi leol, sef twristiaeth, wrth i ymwelwyr barhau i fwynhau prydferthwch naturiol yr ardal ac ymddiddori'n fwy yn nhreftadaeth y dref.



Collodd y gamlas a'r rheilffordd, a fu'n gyfrifol am dwf diwydiannol y dref, eu swyddogaethau gwreiddiol. Yn hytrach, ar y cyd â thwf a thra-arglwyddiaeth ceir yn ail hanner yr 20fed ganrif, cawsant rolau newydd fel atyniadau i ymwelwyr. Defnyddiwyd y gamlas at ddibenion hamdden a chafodd y rheilffordd — a gaewyd yn y 1960au — ei hailgor yn raddol o ganol y 1970au fel llinell treftadaeth ager a redai i'r gorllewin i Garrog. Ni chadwyd y llinell i'r dwyrain o'r dref ac, mewn blynyddoedd dilynol, fe'i hailddatblygwyd ar gyfer tai yn bennaf.

Adeiladwyd atyniadau newydd i ymwelwyr mewn rhannau eraill o'r dref — agorodd Parc Glanyrafon yn 1926 gyda chyrtau tennis, safle seindorf a nodweddion eraill. Prynwyd Plas Newydd, sef cartref Merched Llangollen, gan Gyngor Dosbarth Trefol Llangollen yn 1932 ac agorodd i'r cyhoedd flwyddyn yn ddiweddarach.

Hefyd, daeth y dref yn ganolfan ar gyfer Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, a gynhelir bob blwyddyn. Cynhaliwyd yr eisteddfod gyntaf yn 1947 ac arweiniodd at ddatblygu safle mawr i'r gogledd o'r dref fel campws parhaol. Hefyd, gwelwyd mwy o waith adeiladu ar ôl y rhyfel gydag Ysgol Dinas Brân a thai ar Ystad Pengwern.

Uchod: Y bont â'r rheilffordd o dan ei phen gogleddol yn y 1960au. Caeodd y rheilffordd yn ddiweddarach ac ailagorodd i'r gorllewin fel llinell treftadaeth (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Llun o'r awyr yn dangos safle Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Tirwedd Hanesyddol

Tirwedd a Lleoliad

Lleolir tref Llangollen yn Nyffryn Llangollen — dyffryn afon Dyfrdwy a gyffinnir gan glogwyni Mynydd Eglwyseg i'r gogledd a chefnen uchel arall i'r de, sy'n rhannu'r dyffryn o Ddyffryn Ceiriog.

Mae'r dyffryn yn un llydan a ffrwythlon sy'n dilyn llwybr troellog afon Dyfrdwy ac mae'n llwybr cyfathrebu naturiol o'r dwyrain i galon fynyddig Cymru. Fe'i defnyddiwyd ar gyfer nifer o lwybrau trafnidiaeth gan gynnwys ffordd Llundain i Gaerdybi Thomas Telford a'r hyn sydd bellach yn Gamlas Llangollen.

Golygfa o'r awyr ar hyd Dyffryn Dyfrdwy i'r gorllewin o'r dref (© Haulfrait y Goron: CBHC).





Saif y dref wrth groesfan naturiol ar hyd afon Dyfrdwy, lle mae'r dyffryn yn culhau ychydig, yn bennaf ar ochr ddeheuol yr afon, gyda'r eglwys a'r bont gynnar yn ganolbwynt. Er bod y bont bresennol yn dyddio'n ôl i'r chweched neu'r seithfed ganrif fwy na thebyg, cofnodir pont yn y lleoliad hwn o ddiwedd y 13eg ganrif.¹⁸ Mae'n debygol i'r groesfan afon a sylfaen eglwys Sant Collen o'r chweched neu'r seithfed ganrif arwain at ddatblygu tref Llangollen.

Strwythur y Dref Gynnar

Datblygodd y dref gynharaf o amgylch yr eglwys a'r bont mewn patrwm dolennog hirfain ar hyd un stryd. Heddiw, llinell y stryd hon yw Church Street sy'n parhau fel Bridge Street. Mae'n debygol i ffordd Llundain–Caerdybi ar ei ffurf ddiweddarach (Regent Street) gael ei hadeiladu dros ben dwyreiniol Church Street, ond mae llinell Church Street yn goroesi o'i chyffordd â Regent Street, ychydig i'r gorllewin o'r man y mae Regent Street yn pontio llednant fach o afon Dyfrdwy.¹⁹ Mae Church Street yn dilyn llinell sydd, yn fras, yn gyfochrog â glan ddeheuol

Uchod: Llun o'r awyr ar hyd Dyffryn Dyfrdwy i'r dwyrain o'r dref (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Dyffryn Llangollen o Fryn Barber, oddeutu 1850 (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).

yr afon, heibio i eglwys Sant Collen a safle'r hen farchnad-dy, a oedd fwy na thebyg wedi'i leoli ar safle gerddi presennol Gwesty'r Hand.²⁰

Mae'n debygol i strydoedd eraill ddatblygu'n strydoedd cefn, iardiau a chlosydd yn arwain i ffwrdd o Church Street a Bridge Street. Er y'u cyfyngir gan agosrwydd yr afon i'r gogledd, mae lonydd i'r de fel Cross Lane yn nodweddiadol

o ddatblygiadau cynnar y tu ôl i ffyrntiad y brif stryd. Dengys cynllun o'r dref yn 1791 gynllun cyffredinol Church Street a Bridge Street ynghyd â'r ffordd ddynesu i'r dref o'r dwyrain (gweler t. 75).²¹ Dengys y cynllun strydoedd a rhai adeiladau, ond nid i gyd yn fanwl, ac mae'n bwysig am ei fod yn dangos y dref cyn adeiladu ffordd Caergybi. Dangosir lôn, sef Heol y Capel bellach fwy na thebyg, yn rhedeg i'r de o Westy'r Hand



Mae llinell droellog Church Street yn goroesi o gynllun cynnar y dref (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Llun o'r awyr yn dangos Heol y Castell yn ymestyn i'r dde o'r bont; gellir gweld craidd hŷn y dref i'r brig ac mae'r dref patrwm grid ddiweddarach islaw Heol y Castell (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

ar Church Street i'r hen ficerdy. Mae'r cynllun hefyd yn dangos adeilad ar safle 12 Bridge Street, Gwesty'r Hand, yr eglwys ac adeiladau llai ar hyd Heol y Capel a Cross Lane. Dangosir y lôn (Butler Hill) yn arwain at Blas Newydd hefyd, yn ogystal ag adeiladau ar ei hyd, o bosibl Pen y Maes a'r adeiladau a fyddai'n dod yn Blas Newydd.


Dengys brasgynllun o'r dref yn 1810, a dynnwyd ac a anodwyd gan John Hughes oddeutu 1870, gynllun manwl o'r dref gynnar a rhydd wybodaeth hanesyddol dda am newidiadau ar droad y 19eg ganrif.²² Nododd Hughes fod Gwesty'r Hand wedi'i ymestyn a bod tŷ ei ewythr wedi'i ychwanegu i'w ochr chwith (dwyreiniol).²³ Roedd yr adeiladau gyferbyn wedi'u 'pulled down, and a strong wall made on the side of the river and the ground between the street and the river made into a pleasure garden'. Dyma yw man agored gerddi Gwesty'r Hand heddiw ond ar y cynllun mae'n ymddangos fel rhes barhaus o adeiladau ar ochr ogleddol Bridge Street, a oedd yn ymestyn i'r dwyrain ar hyd y stryd droellog heibio i'r eglwys. Hefyd, disgrifiodd Hughes hen neuadd y dref gyferbyn â Gwesty'r Hand â 'heavy oak stairs going into the Court Room above, a dark dismal room'²⁴

Cafodd Gwesty'r Feathers, gyferbyn â Gwesty'r Hand, ei ddisgrifio fel y tŷ cyntaf gan Hughes, am mai hon oedd y brif dafarn yn y dref, gyda'r

Royal Oak ar Heol y Capel yn dilyn o ran enw da. Dim ond 'tafarn fechan' oedd Gwesty'r Royal ar Bridge Street, sef y King's Head yn 1810, ond erbyn y 1820au fe'i hailgodwyd a'i hymestyn a hon oedd ail westy'r dref. Disgrifiodd Hughes y llwybr drwy'r dref yn 1810: 'At that time all travelling and traffic was through the village, from Pentre Felin Hen under the church yard, turning by the Hand, between the hotel and the Post Office up to the George & Dragon (now the Grapes Hotel) turning on the right through Pentre Morgan for Corwen. Regent Street was not then made, all were gardens and green fields. There were no names on the streets or numbers on the houses then. Llangollen was an insignificant village, 60 years ago!'²⁵

Mae enghreifftiau o dai cynnar, yn debyg i'r rhai a fyddai wedi bodoli pan ysgrifennai Hughes, wedi goroesi yn 18 a 31 Church Street. Mae'r ddau yn adeiladau cynhenid bach ac yn debyg fwy na thebyg i'r rhai a gafodd eu dymchwel i wneud lle i erddi Gwesty'r Hand. Mewn man arall, mae 12 Heol y Capel ac 1 a 2 Sgwâr Heol y Capel yn dangos sut y datblygwyd yr ardal y tu ôl i'r prif ffryntiadau stryd gyda bythynnod bach wedi'u hadeiladu mewn grwpiau agos ar dir dros ben.

Mae'n debygol bod gan adeiladau eraill yn y rhan gynnar hon o'r dref hanes cynnar a gallent ddyddio'n ôl i'r 16eg neu'r 17eg ganrif.



Darn o fap o ofaint John Hughes, gweithgynhyrchwr gwlan yn Llangollen, yn dangos cynllun y dref yn 1810 (Swyddfa Cofnodion Sir Ddinbych, DRO NTD/1304).

Byddai adeiladau wedi cael eu disodli neu eu hailfodelu (yn aml drwy ailosod ffrynt neu eu hymestyn) yn y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif pan ddatblygodd y dref.

Y tu hwnt i ddatblygiad cychwynnol y dref, cyfyngwyd ar y gwaith adeiladu cynnar y tu

allan i'w chraidd i ddatblygu diwydiannol yn bennaf, a ddefnyddiai ynni dŵr afon Dyfrdwy at ddibenion melino a chynhyrchu tecstilau. Mewn manau eraill, cafodd filas llai, ystadau a thai anghysbell eu datblygu, ond parhau i fod yn dref wledig fach a wnaeth Llangollen yn ei hanfod.



Uchod chwith:
31 Church Street,
a allai darddu o'r
17eg ganrif
(© Hawlfraint y Goron:
CBHC).

Uchod: Mae gan
12 Heol y Capel,
sydd wedi'i leoli y
tu ôl i brif ffryntiad
y stryd, hanes cynnar,
efallai o'r 16eg ganrif
(© Hawlfraint y Goron:
CBHC).

Chwith: Adeiladwyd
Sgwâr Heol y Capel
y tu ôl i brif ffryntiad
y stryd fel grŵp agos
o fythynnod ar dir
dros ben (© Hawlfraint
y Goron: CBHC).

Datblygu ac Ehangu yn y 19eg Ganrif

Yn sgil twf twristiaeth yn yr ardal drwy gydol diwedd y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif, anogwyd ymwelwyr i ymgartrefu a datblygu'r dref a'i chyffiniau'n gyrchfan gwledig.

Datblygodd Merched Llangollen Blas Newydd

a daeth yn ffocws diwylliannol i'r ardal, a werthfawrogyd am ei brydferthwch naturiol. Gwelwyd mwy yn dilyn gan adeiladu, addasu neu addurno filas a thai bonedd bach gyda gerddi, adeiladau allan a lletyau cysylltiedig. Ymhlith yr enghreifftiau da mae Siamber Wen ar Wern Road, Willow House ar Willow Street a Thregwern, mewn arddull Gothig, ar Hall Street. Mae hyn wedi arwain at ddylanwad amlwg y bonheddig a'r Pictiwrésg yn y dref a'r ardal gyfagos.

Llun o'r archif o Siamber Wen ar Wern Road. Mae'r tŷ yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 18fed ganrif fwy na thebyg ond fe'i hailfodelwyd oddeutu 1800 gyda thu allan yr adeilad mewn arddull Bictiwrésg (© Hawlfraint y Goron: Cofnod Henebion Cenedlaethol).



Dywedir bod Willow House ar Willow Street yn tarddu o'r 18fed ganrif ac roedd yn gartref i Elizabeth Hughes a wasanaethodd Merched Llangollen (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Cafodd datblygiadau trafndiaeth a diwydiannol diweddarach effaith fwy dramatig. Cynyddodd y gamlas, ffordd Caergybi a'r rheilffordd i gyd ddichonoldeb a photensial diwydiant a thwristiaeth, a ddilynwyd gan alw am fwy o dai a gwasanaethau yn y dref.

Disgrifiodd John Hughes drafftig a phrysurdeb teithwyr drwy'r dref ar ffordd Caergybi:

'The great Holyhead road had for some time now been completed, and a great traffic opened between London and Ireland. The two hotels became rivals. The Mail, the coaches and private carriages were constantly and continually going through. And then under the church yard to the Hand and turning at right angles, those to Holyhead had to go straight on, but then had to return again by the Hand for Holyhead or for London. All the members of Parliament in their private carriages came this way.

The new road from the Grapes to Pentrefelin Hen was very soon after this made, and the

new road avoided Pentre Morgan (Bwlch-y-Rhisgog road was the first made) and the new road from Pentrefelin Hen to Llangollen Fechan, avoiding the Pen-y-Bedw hill and the hill be Pen-y-Bryn and Bryn Dethol. These were all done within my memory. Also Fron-friau, Chirk Embankment and all the way from there to Gobowen.'²⁶

Deilliodd datblygiad cyflym y dref yn ail hanner y 19eg ganrif, yn enwedig yn y rhannau deheuol a gorllewinol, yn uniongyrchol o ddatblygu'r cysylltiadau trafndiaeth. Datblygwyd lleiniau adeiladu ar hyd ffordd Caergybi o'r 1820au ymlaen (fel yr adeilad swyddfa bost presennol ar Berwyn Street) ac roedd ardaloedd y tu allan i'r dref ei hun wedi gweld peth datblygu yn y cyfnod hwn hefyd. Adeiladwyd nifer o filas yn ardal Ffordd yr Abaty a thu hwnt. Adeiladwyd yr hen dolldy ar Queen Street, ar ochr ddwyreiniol y dref, oddeutu 1816 yn unol â dyluniadau Telford er mwyn gwasanaethu ei ffordd newydd ac mae'n ein hatgoffa o'r ffordd y gwnaeth y ffordd newydd newid y ffordd ddynesu i'r dref.



Llun o'r archif o'r hen dolldy ar Queen Street, a adeiladwyd oddeutu 1816 yn unol â dyluniadau Thomas Telford (© Hawlfraint y Goron: y Cofnod Adeiladau Cenedlaethol).

Llun o'r archif o saith bwthyn ar gornel Queen Street a Brook Street. Cafodd y bythynnod eu dymchwel yn y blynyddoedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd (© Hawlfraint y Goron: y Cofnod Adeiladau Cenedlaethol).



Adeilad cynnar yn 1-3 Regent Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Roedd rhai adeiladau wedi bodoli ar hyd Regent Street (y 'meysydd gwyrdd' a ddisgrifiwyd gan Hughes) cyn ffordd Caergybi ond cawsant eu haddasu a newidiodd nodweddion yr ardal hon yn sylweddol yn sgil dyfodiad y ffordd.

Heol y Castell a'r rhwydwaith o strydoedd i'r gorllewin o 1860 ymlaen a brofodd y datblygiad mwyaf dramatig o ran graddfa ac arddull. Roedd rhan o'r ardal hon wedi'i datblygu o ddechrau'r 19eg ganrif fwy na thebyg. Mae 29 Heol y Castell





(bwyty bellach) yn adeilad o ddechrau'r 19eg ganrif yn y traddodiad Sioraidd: cymesurol â ffenestri codi cwareli bach. Mae ei leoliad, ar gornel Oak Street, sy'n cysylltu Heol y Castell â Heol y Capel, yn awgrymu mai hon oedd un o'r ardaloedd cyntaf i'w datblygu.

Yn fwy o arwydd o brif ddatblygiad Heol y Castell mae rhifau 37–45 (odrifau) ar yr ochr ddwyreiniol rhwng Oak Street a Berwyn Street. Wedi'u creu gan Morris Roberts a'u dylunio gan W. H. Hill o Groesoswallt, maent yn ddatblygiad masnachol tri llawr cydlynol sydd â blaenau siop ar y llawr gwaelod a llety uwchben. Maent o frics wedi'u peintio ac yn gwbl glasurol a chymesurol eu dyluniad ond, serch hynny, maent yn cyfleu natur fawr uchelgeisiol datblygiad y dref ar ôl 1860. Mae'r defnydd o frics yn bennaf at ddibenion adeiladu o'r 1860au ymlaen yn sicrhau bod gan yr ardaloedd o'r dref a ddatblygwyd yn y cyfnod hwyrach hwn ymddangosiad a chymeriad nodweddiadol iawn.

Parhaodd y twf diwydiannol yn sgil datblygu'r diwydiant melinau (codwyd melinau newydd ar afon Dyfrdwy) a chyflwyno tanerdy, bragdy a busnesau coed. Datblygodd byd amaeth ar gyrion y dref mewn ymateb i wella ac ehangu ffermio. Ailgodwyd adeiladau fferm a sefydlwyd ffermydd pwrpasol, fel y fferm laeth arbenigol yn y Feifod.

Tirwedd a Strwythur Cymdeithasol

Mae'r dref o natur drefol gymysg gyda chraidd masnachol a amgylchynir gan amrywiaeth o fythynnod, filas a thai teras, a diwydiant. Ceir strydoedd maestrefol dwys ac, yn enwedig yn y rhan gynharach, gyd-ddatblygiad adeiladau preswyl ochr yn ochr ag adeiladau masnachol. O fewn y dref, mae pwyslais ar ffurf drefol dynn gyda llawer o adeiladau wedi'u codi dros dri llawr a phrin yw'r gofod rhwng adeiladau. Y tu allan i graidd y dref, ceir maestrefi llai o faint o'r 19eg a'r 20fed ganrif i bob cyfeiriad, a wnaeth ymestyn i lethrau is y bryniau ac ar hyd coridor yr afon.

Mae nifer o dirfeddianwyr a theluoedd mawr wedi dylanwadu ar y dref a'r cyffiniau; bu'r teulu Williams Wynn o Wynnstay, Rhiwabon, yn brif dirfeddianwyr yn ardal Llangollen, ynghyd â'r teulu Myddleton o Gastell y Waun, a'r teulu Tottenham o Blas Rhysgog a Phlas Berwyn.

Drwy gydol y 18fed a'r 19eg ganrif, datblygodd y tîrfeddianwyr hyn ystadau yn yr ardal gan ddefnyddio egwyddorion Pictiwresg, gyda

Adeiladwyd 29 Heol y Castell ar ddechrau'r 19eg ganrif yn y traddodiad Sioraidd. (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

thai ffasiynol ar dir naturiol a dirluniwyd ac a reolwyd yn ofalus. Mae Plas Berwyn a Neuadd Llandysilio (i'r gogledd o Raeadr y Bedol), a Neuadd Dinbren, Plas yn y Feifod a Neuadd Pengwern oll yn enghreifftiau da. Drwy werthu tir ystadau y gwerthwyd tir yn bennaf, yn enwedig wrth ddatblygu Heol y Castell.

Hefyd, gwnaeth Merched Llangollen — Eleanor Butler a Sarah Ponsonby — adael ôl parhaol ar y dref drwy drawsnewid Plas Newydd yn encilfa Ramantaidd gyda thir wedi'i dirlunio ar gyrion canol y dref. O'r cychwyn, roedd yn atyniad i ymwelwyr ac mae'n parhau i ddenu ymwelwyr i'r dref heddiw.

Llun o'r archif o Neuadd Dinbren. Wedi'i adeiladu ar safle strwythur cynbarach, mae'r tŷ hwn yn dyddio o'r 1790au fwy na thebyg (© Hawlfraint y Goron: y Cofnod Adeiladau Cenedlaethol).



Llun o'r archif o Plas yn y Feifod, sy'n dyddio'n bennaf o'r 1850au neu'r 1860au (© Hawlfraint y Goron: y Cofnod Adeiladau Cenedlaethol).



Nodweddion Adeiladu

Cronoleg Datblygu

Mae Llangollen, fel anheddiad, yn tarddu o ddyddiau cynnar sefydlu eglwys Sant Collen yn y chweched neu'r seithfed ganrif fwy na thebyg. Yn dilyn concwest Edward yn y 13eg ganrif, daeth y Saeson i reoli anheddiad Cymreig sefydledig a oedd yn canolbwyntio ar yr eglwys, y castell a chroesfan yr afon. Mae'n debygol bod pont wedi'i chodi dros afon Dyfrdwy wrth y man rhydio naturiol hwn o ddyddiad cynnar ond darparwyd croesfan sylweddol gan bont garreg (y strwythur presennol o bosibl), o'r chweched neu'r seithfed ganrif fwy na thebyg.

Y groesfan a'i ffordd ddynesu (Bridge Street), yn ogystal â'r eglwys, yw prif oroeswyr y dref gynnar. Er nad oes fawr ddim arall o'r sylfeini canoloesol wedi goroesi, fel ffiniau bwrddais neu adeiladau o bwys, mae nifer o adeiladau cynnar sy'n cynrychioli 'craidd' cynharach y dref cyn y 19eg ganrif yn goroesi ar hyd Bridge Street a Church Street. Cyfyngwyd y dref i'r ardal hon o Church Street/Bridge Street nes i dri newid mawr o ran

trafnidiaeth ddigwydd rhwng dechrau a chanol y 19eg ganrif.

Arweiniodd y broses o agor camlas cangen Llangollen yn 1808 er mwyn cysylltu dŵr afon Dyfrdwy â rhwydwaith camlesi Pontcysyllte at y newid mawr cyntaf i dirwedd y dref, gyda ffocws newydd o weithgarwch ar lan ogleddol yr afon. Creodd y gwaith o ddatblygu ffordd Caergybi i'r de o'r dref o 1815 newid radical arall gyda thwf adeiladau masnachol er mwyn darparu ar gyfer y nifer gynyddol o deithwyr ac ymwelwyr. Y trydydd newid mawr o ran trafndiaeth oedd dyfodiad y rheilffordd yn 1861, rhwng y gamlas a'r afon.

Gyda chysylltiadau trafndiaeth newydd, ehangu a wnaeth gweithgarwch diwydiannol y dref ym meysydd chwarel cerrig a chynhyrchu tecstilau. Arweiniodd y twf dilynol yn y boblogaeth ac mewn gweithgarwch masnachol at ehangu ac mae cryn dipyn o gynllun ac adeiladau presennol y dref yn perthyn i'r cyfnod hwn. Arweiniodd y twf hwn yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif at greu Heol y Castell a rhan orllewinol y dref.

Pont Llangollen, oddeutu 1850 (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).



*Y tŵr castellaidd
crwn ar y bont, a
ddymchwelwyd yn 1940
(Drwy garedigrwydd
Amgueddfa Llangollen,
Casgliad Stan Coulter).*



Mathau o Adeiladau

Trafnidiaeth

Mae Pont Llangollen yn bont garreg pedwar bwa. Adeiladwyd ei rhan hanesyddol o rwbel cwrs gyda choncrid wedi'i rag-gastio ar yr ochr fodern i fyny'r afon. Ceir torddyfroedd dwfn i'r ochrau i fyny'r afon ac i lawr yr afon. Cofnodwyd pont yn croesi afon Dyfrdwy yn 1284 ac, yn ôl traddodiad, priodolir y bont bresennol naill ai i John Trefor (esgob Llanelwy, 1346–57) neu John Trefor II (esgob Llanelwy, 1395–1411). Fodd bynnag, nododd Leland fod pont garreg fawr dros afon Dyfrdwy yn y 1530au ac mae slabiau beddrodol ffluredig — yn debyg i'r rhai yn Abaty Glyn y Groes — a ganfuwyd yn ei hadeiledd wrth addasu'r bont yn awgrymu iddi gael ei chodi ar ôl y diddymiad yn y 1530au. At hynny, mae darn arall o waith maen a ganfuwyd yn adeiledd y bont, sef carreg 'Rondle Reade' dyddiedig 1656, yn awgrymu y gellid bod wedi'i chodi yng nghanol yr 17eg ganrif.²⁷

Pa ddyddiad bynnag yr adeiladwyd y bont gyntaf, mae'r bont wedi'i haddasu a'i hystyng yn ers ei chodi gyntaf. Bu'n rhaid ymestyn y pen gogleddol yn 1863 cyn adeiladu'r rheilffordd a'r orsaf, bu'n rhaid cynyddu'r uchder er mwyn bod yn gyson â lefel y ffordd newydd ac roedd hefyd angen canllawiau. Cafodd tŵr castellaidd crwn wrth y pen gogledd-ddwyreiniol ei ddimchwel yn 1940 am ei fod yn beryglus i draffig. Cafodd y bont ei lledaenu ar yr ochr i fyny'r afon yn 1873 ac unwaith eto yn 1968, a wnaeth bron ddyblu ei lled gwreiddiol.

Er yn bwysig fel croesfan gynnar, mae'n debygol mai dim ond cysylltu'r dref â glan ogleddol yr afon a wnaeth y bont ac efallai nad oedd yn bwysig y tu hwnt i hyn. Dengys cynllun 1791 (t. 75), er i'r dref ddatblygu o amgylch yr eglwys, fod y brif ffordd o Wrecsam i Ruthun ar ochr ogleddol yr afon (Heol y Felin/Ffordd yr Abaty bellach).²⁸ Roedd y bont yn cysylltu'r ffordd hon â'r dref, a oedd yn gyfres o strydoedd troellog â lonydd yn arwain i'r de. Er ei bod yn cynnwys strwythurau amlwg yr eglwys a'r bont, roedd y dref gynharaf yn anghysbell iawn ac oddi ar y brif ffordd ar hyd Dyffryn Dyfrdwy.



Rhaeadr y Bedol. Gorsaf fedryddu ddiweddarach yw'r adeilad ar y chwith (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Rhaeadr y Bedol (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Mae Camlas Llangollen wedi goroesi ar y darn gwastad o dir rhwng afon Dyfrdwy a'r bryniau i'r gogledd, ynghyd â'i llwybr tynnu a strwythurau cysylltiedig ger y dref. Yn eu plith mae Wharf Cottage a'r hen warws a adeiladwyd

wrth ymyl y lanfa yn y dref. Ymhellach i fyny'r afon, tuag at Rhaeadr y Bedol, mae'r system gored a gynlluniwyd ac a ddyluniwyd i reoli llif y dŵr o afon Dyfrdwy i mewn i system y gamlas wedi goroesi.

*Gorsaf reilffordd
Llangollen
(© Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Gorsaf reilffordd
Llangollen o'r bont
(© Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

Mae'r rheilffordd hefyd wedi'i lleoli ar lan ogleddol afon Dyfrdwy. Roedd y llain o dir gul hon yn darparu ar gyfer y llwybrau trafniadaeth cyfochrog o Wrecsam, y gamlas a'r rheilffordd. Bellach, mae'r rheilffordd ond yn goroesi i'r gorllewin o'r orsaf, a adeiladwyd yn 1865 i'r gorllewin o'r bont yn lle gorsaf gynharach o tua 1860 (cafodd ei dymchwel pan gafodd y llinell ei hymestyn tua'r gorllewin i Gorwen). Gwnaed rhagor o addasiadau a gwaith ymestyn yn 1898 pan gafodd y trac ei ddyblu o ran lled ac ychwanegwyd cyfleusterau newydd, fel platfformau a phompren. Mae prif adeilad yr orsaf — a adeiladwyd o garreg mewn arddull Tudurbeaidd — blwch signalau, trosbont, siediau nwyddau a strwythurau atodol eraill yn adeiladau rhestredig gradd II.

I'r de o'r dref, mae ffordd Caergybi wedi goroesi, sydd bellach yn adeiledig ar ei hyd fel Berwyn Street/Regent Street/Queen Street. Mae'r ffordd hon, ynghyd â'r gamlas a'r rheilffordd, yn bwysig er mwyn dangos ailbwyslais hanesyddol y dref a ddigwyddodd yn ystod y 19eg ganrif. Yn sgil y newid o dref a gysylltwyd â'r byd gan lonydd i un a ddibynnai ar gysylltiadau trafniadaeth cyfochrog newydd y tu allan i'r canol trefol, gwelwyd cyfoeth newydd a mwyr o ddatblygu.





*Y platfformau yng ngorsaf reilffordd Llangollen
(© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Y siediau nwyddau yng ngorsaf reilffordd Llangollen
(© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Y blwch signalau yng ngorsaf reilffordd Llangollen
(© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Hen Chapel Coffa
Pritchard y Bedyddwyr,
Ffordd yr Abaty, a
adeiladwyd yn 1895
(© Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

Eglwysi a Chapeli

Eglwys Sant Collen yw prif eglwys y plwyf yr enwyd Llangollen ar ei hôl a'r rheswm dros ddatblygu'r dref gynnar. Cafodd yr eglwys o'r chweched neu'r seithfed ganrif ei disodli yn y 13eg ganrif gan adeilad yn yr arddull Gothig Seisnig Gynnar. Cafodd ei haddasu a'i hymestyn nes ei hailfodelu a'i hehangu'n sylweddol yn 1864–67 gan y pensaer o'r Amwythig, S. Pountney Smith. Cadwodd dŵr y gorllewin

o'r 18fed ganrif, ond ychwanegodd ystlys i'r de a changell ystlysog, sy'n gyfrifol am olwg allanol bresennol yr eglwys (t. 53).

Y tu allan i'r dref gynnar, mae adeiladu capeli yn diffinio twf Llangollen yn y 19eg ganrif. Cafodd Capel amlwg Rehoboth ei adeiladu yn 1835–36 ar ffurf glasurol boblogaidd gyda ffrynt talog yn edrych dros Sgwâr Fictoria (t. 35). Fe'i hehangwyd yn 1874 a gosodwyd to newydd yn 1890 — newidiadau a adlewyrchai'r cynnydd yn y boblogaeth yn y dref drwy gydol y 19eg ganrif ac a grëodd y galw am addoldai newydd. Cafodd yr hen Gapel y Bedyddwyr Cymraeg ei adeiladu yn 1860 fel un o'r adeiladau cyntaf ar Heol y Castell a oedd newydd ei gosod. Fe'i hadeiladwyd ar ffurf glasurol gonfensiynol a hwn yw un o'r adeiladau amlycaf ar Heol y Castell (t. 16).

Yn sgil y cynnydd ym mhoblogrwydd anghyddfurfiaeth ddiwedd y 19eg ganrif adeiladwyd mwy o gapeli newydd. Dilynwyd Capel Coffa Pritchard y Bedyddwyr ar Ffordd yr Abaty, a adeiladwyd yn 1895, gan gyfres o adeiladau ar droad yr 20fed ganrif. Cafodd Capel Cynulleidfaol Glanrafon (1902–03, Eglwys Efengylaidd Glanrafon bellach) a'r Capel Methodistaidd Wesleiaidd Saesneg (1903, Eglwys Fethodistaidd Saesneg bellach) eu hadeiladu ar Queen Street (tt. 16–17). Adeiladwyd Capel Methodistaidd Seion o frics mawr ar Berwyn Street yn 1903.



*Capel Methodistaidd
Seion, Berwyn Street,
a adeiladwyd yn 1903
(© Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

Adeiladau Masnachol a Dinesig

Mae Hen Neuadd y Dref a'r Hen Arfdy, a adeiladwyd yn 1835 fel neuadd y dref ar ochr ddeheuol Berwyn Street, yn ffurfio pen dwyreiniol Hall Street ar Sgwâr Fictoria. Defnyddiwyd arddull Tudurbeaidd foel gyda cherrig rwbel. Ynghyd

â Chapel Rehoboth gerllaw, mae'r gwaith o adeiladu neuadd y dref yn y lleoliad hwn yn awgrymu bod pwyslais y dref yn dechrau symud o'r eglwys tuag at ardal Sgwâr Fictoria erbyn dechrau'r 19eg ganrif.



Yr Hen Arfdy gyda ben Gapel Rehoboth y tu ôl (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Llun o'r archif o'r Hen Arfdy wrth gyffordd Sgwâr Fictoria â Berwyn Street (© Hawlfraint y Goron: y Cofnod Adeiladau Cenedlaethol).



Gwnaeth datblygiadau mwy uchelgeisiol yn ardal Heol y Castell ddisodli'r rhai yn Sgwâr Fictoria yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif. Adeiladwyd neuadd y dref newydd yn 1867 ar gornel Heol y Castell â Parade Street. Wedi'i dylunio gan y penseiri sirol, Lloyd Williams ac Underwood, mabwysiadodd yr arddull Adnewyddu Gothig ffasynol o'r 19eg ganrif gyda tho uchel, cwt clychau o bren a ffenestri lawnsed. Yn wreiddiol,

roedd neuadd farchnad ar lefel y stryd gydag ystafelloedd dinesig uwchben.

Hefyd, yn yr un flwyddyn, cyflogwyd Lloyd Williams ac Underwood i ddylunio gorsaf yr heddlu ar Parade Street, ger neuadd y dref, ond mewn arddull Gothig symlach. Mae lleoliad y ddau adeilad gyda'i gilydd ar ben gogleddol Heol y Castell, ger craidd cynharach y dref ar

Neuadd y dref, a adeiladwyd yn 1867, ar gornel Heol y Castell â Parade Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Gorsaf yr heddlu a adeiladwyd yn 1867 ar Parade Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Bridge Street, eu maint a'r ffaith y mabwysiadwyd yr arddull Gothig flaengar nas defnyddiwyd rhyw lawer yn Llangollen ar y pryd, yn dynodi ymdrech arbennig i gyflwyno cyfnod a hunaniaeth newydd. Ceisiwyd newid nodweddion y dref drwy ei phensaemïaeth a'i chynllunio.

Adeiladwyd dwy ysgol newydd yn y dref erbyn canol y 19eg ganrif: un ar ochr ogleddol Regent Street (1840) a'r Ysgol Brydeinig ar Brook Street (1846 a addaswyd yn gapel yn ddiweddarach). Yn sgil y gwaith o ehangu'r dref ar ôl 1860, roedd angen mwy o ysgolion felly cafodd ysgol Regent Street ei hymestyn yn fawr yn 1871 yn yr arddull Gothig newydd (ar ddechrau'r 21ain ganrif fe'i defnyddiwyd fel canolfan iechyd y dref). Adeiladwyd ysgol bwrpasol newydd ar Parade Street yn 1874 a wnaeth, ynghyd ag adeiladau newydd neuadd y dref a gorsaf yr heddlu, gwblhau craidd dinesig 'newydd' y dref.



Yr Ysgol Brydeinig ar Brook Street, a adeiladwyd yn 1840 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Ysgol Regent Street o 1840, a ymestynnwyd yn yr arddull Gothig yn 1871 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Yr ysgol ar Parade Street, a adeiladwyd yn arbennig yn 1874 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Mae nifer o fanciau yn y dref. Maent i gyd yn dyddio o dwf Llangollen yn y 19eg ganrif ond sefydlwyd rhai yn ardal hŷn Bridge Street/ Church Street yn ogystal â rhannau diweddarach y dref. Agorwyd Banc Midland yn 1863 mewn rhan o adeilad cynharach drws nesaf i Westy'r Royal ar Bridge Street; fe'i hailfodelwyd â ffrynt

newydd yn 1881–83. Adeiladwyd yr Hen Fanc yn 1855 ar gornel Berwyn Street â Heol y Capel. Wedi'i adeiladu o frics ar ffurf glasurol syml, mae ganddo ffasâd blaen crwn gosgeiddig yn wynebu'r gyffordd — dyluniad amlwg ar gyfer y lleoliad ac ymgais i orfodi ffurfioldeb ar ardal Sgwâr Fictoria.

Hen Fanc Midland, a ailfodelwyd yn 1881–83 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Isod: Yr Hen Fanc ar Berwyn Street, a adeiladwyd yn 1855 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Erys enghreifftiau da o eiddo masnachol cymysg yn y dref, fel y rhai yn 4 Berwyn Street (Watkin a Williams), adeilad tri llawr ar ffurf yr Hen Fanc ond â blaen siop yn ymestyn ar hyd y llawr daear i gyd. Gwelir tystiolaeth o adeiladau a addaswyd at ddefnydd masnachol ar Bridge Street o hyd, ar ffurf ffasadau dyluniedig (15–19) a chynnwys blaenau siop mewn ffasadau Sioraidd cynharach (10–12). Heol y Castell yw'r brif ardal fasnachol o'r cyfnod diweddarach gyda datblygiadau mwy uchelgeisiol fel yr adeiladau ar y pen de-ddwyreiniol (37–45). Cafodd nifer o adeiladau eu codi'n unigol ond ar yr un ffurf ac mae elfennau hynod dda wedi goroesi mewn perthynas â rhai, fel blaen siop y cigydd (19).



*Eiddo masnachol cymysg yn 4 Berwyn Street
(© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Chwith: Adeiladau wedi'u haddasu at ddefnydd masnachol yn 15–19 Bridge Street
(© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Isod: Mae 37–45 Heol y Castell yn rhan o'r brif ardal fasnachol ddiweddarach
(© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Chwith isod: Blaen siop trawiadol y cigydd yn 19 Heol y Castell
(© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



Mae prif westai'r dref gynnar i'w gweld o hyd, sef Gwesty'r Royal (Bridge Street) a Gwesty'r Hand (Church Street). Mae'r ddau yn gysylltiedig â datblygiad cynnar y dref a'i chyfnod fel cyrchfan i ymwelwyr a oedd yn chwilio am y Pictiwrésg yn y 18fed a'r 19eg ganrif. Mae Gwesty'r Royal yn adeilad tri llawr mawr mewn man amlwg ar ben gorllewinol Bridge Street sy'n edrych dros

yr afon a'r bont. Mae'n tarddu o'r 18fed ganrif ond fe'i hailadeiladwyd yn yr 1820au a chafodd ei ehangu yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif, o bosibl ar ôl ei werthu yn 1867. Ei enw gwreiddiol oedd The King's Head, ond cafodd ei ailenwi'n Westy The Royal King's Head yn dilyn ymweliad gan y Dywysoges Victoria yn 1832 a daeth yn adnabyddus fel Gwesty'r Royal erbyn 1880.

Gwesty'r Royal o'r afon yn 1901. Mae'r gwesty yn tarddu o'r 18fed ganrif ond fe'i hailadeiladwyd yn yr 1820au a chafodd ei ehangu'n ddiweddarach (Hawlfraint: Casgliad Francis Frith).



Gwesty'r Hand yn 1890. Er bod Gwesty'r Hand hefyd yn tarddu o'r 18fed ganrif, mae'r adeilad o'r 19eg ganrif yn bennaf gyda rhai addasiadau diweddarach (Hawlfraint: Casgliad Francis Frith).





Uchod: Gwesty'r Royal fel y mae heddiw (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Gwesty'r Hand fel y mae heddiw (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Er bod Gwesty'r Hand ar gornel Church Street a Heol y Capel yn tarddu o'r 18fed ganrif, mae'r adeilad o ddechrau'r 19eg ganrif yn bennaf gyda nifer o addasiadau ac ychwanegiadau diweddarach. Mae hefyd yn cael budd o erddi agored ar ochr afon Church Street. Disgrifiwyd

y gwaith o glirio adeiladau yn yr ardal hon gan John Hughes (t. 22) ac mae'n siŵr mai'n fuan ar ôl adeiladu'r gwesty y digwyddodd. Mae'r Wynnstay Arms, sydd hefyd yn y dref gynnar, yn strwythur o ddechrau'r 18fed ganrif a orchuddiwyd yn sylweddol gan ffrâm bren allanol yn 1897.

Llun o'r archif o'r Wynnstay Arms a 18 Bridge Street. Mae'r ddau yn tarddu o'r 18fed ganrif ond gorchuddir y Wynnstay Arms gan ffrâm bren ffug (© Hawlfraint y Goron: y Cofnod Adeiladau Cenedlaethol).



18 Bridge Street fel y mae heddiw (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Ceir tafarndai coetsh eraill sydd â chysylltiad agos ag adeiladu ffordd Llundain-Caergybi, fel Gwesty'r Cambrian ar Berwyn Street. Er ei fod yn dyddio o ganol y 19eg ganrif, mae'n parhau â'r traddodiad Sioraidd o ffenestri codi cwareli

bach. Mae tafarndai newydd eraill, fel yr hen Nags Head yn 25 Church Street a'r hen dafarn yn 51 Heol y Castell, yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y teithwyr i'r dref. Fodd bynnag, Gwesty'r Royal a Gwesty'r Hand oedd y prif lety o hyd.



Chwith: Gwesty'r Cambrian ar Berwyn Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: 25 Church Street, y Nags Head gynt (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith isod: Llyn o'r archif o'r hen dafarn yn 51 Church Street (© Hawlfraint y Goron: y Cofnod Adeiladau Cenedlaethol).

Dde isod: 51 Church Street fel y mae heddiw (© Hawlfraint y Goron: CBHC).





Melin Llangollen, bwyty a bar Y Felin Yd bellach (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Adeiladau Diwydiannol

Mae ynni dŵr afon Dyfrdwy a'i llednentydd wedi chwarae rhan bwysig yn y dref ers y dyddiau cynnar. Gwyddys bod nifer o felinau wedi defnyddio'r afon. Roedd Melin Llangollen (Y Felin Yd bellach) yn felin yd ar lan ddeheuol yr afon, ychydig i'r gorllewin o'r bont. Arni mae carreg â'r dyddiad 1786 a'r enw, Trevor Lloyd, ond mae'r felin ei hun dipyn yn hŷn. Mae tystiolaeth ddogfennol yn cofnodi melino yn y 13eg ganrif²⁹ a dywedir iddi gael ei hailadeiladu yn 1630, sy'n dynodi'r defnydd bach cynnar o'r afon Dyfrdwy at ddibenion ynni dŵr.

Mae'r rhan fwyaf o'r melinau yn gysylltiedig â datblygiad diwydiannol y dref fel canolfan cynhyrchu gwlanen o ganol y 19eg ganrif. Yn 1805, gwnaeth y perchenogion melinau o Fanceinion, William Turner ac Andrew Comber,

sefydlu Melin Dyfrdwy Isaf ar lan ogleddol yr afon ar ochr i lawr yr afon y bont fel melin gotwm wedi'i phweru. Manteisiodd y felin hon ar Langollen fel dewis amgen rhatach i dref melin Swydd Gaerhirfryn. Cafodd ei dinistrio gan dân yn 1814 ac, er iddi gael ei hailadeiladu, methodd y felin pan ddirywiodd y fasnach gotwm yn y 1830au. Fe'i prynwyd gan Roberts a Hughes a wnaeth ei haddasu'n felin wlân â gwyddiau mecanyddol newydd yn 1843.³⁰ Ehangodd y gwaith i adeiladau newydd Melin Dyfrdwy Uchaf ar Heol y Felin oedd gerllaw. Caeodd Melin Dyfrdwy Uchaf yn yr 1920au a chaeodd Melin Dyfrdwy Isaf yn y 1960au. Prynwyd y ddwy gan Cuthbert a oedd yn fasnachwr hadau.³¹ Mae strwythurau melin Melin Dyfrdwy Isaf wedi'u dymchwel ac mae'r safle bellach yn faes parcio mawr, ond mae elfennau o'r system rheoli dŵr wedi goroesi ar hyd yr afon ac fel llwybr troed i'r bont. Mae strwythurau Melin Dyfrdwy Uchaf wedi goroesi.

Erbyn y 1870au, roedd melin wlân arall, sef Melin Mile End, wedi'i sefydlu ymhellach i fyny'r afon o'r dref ar ffordd Caergybi. Teulu Lloyd-Jones oedd yn berchen arni, a brynodd Felinau Dyfrdwy Uchaf ac Isaf yn 1888. Mae adeiladau'r felin wedi goroesi.

Roedd iard goed Coward (archfarchnad bellach) wedi'i datblygu erbyn 1890 ar safle gwag ar ben gogleddol Regent Street. Parhaodd mewn busnes tan y 1950au a datblygwyd y safle fel archfarchnad ddiwedd yr 20fed ganrif. Mae ei lleoliad wrth ymyl y ffordd a'r llain sylweddol o dir y'i lleolwyd arni yn adlewyrchu pwysigrwydd gwaith prosesu coed yn y dref.

Oddeutu 1900, cafodd tanerdy (sef Llangollen Hide and Skin Co. Ltd) ei sefydlu mewn hen felin wlanenni wrth y nant ar ben dwyreiniol Church Street. Ar argraffiad cyntaf map Arolwg Ordnans 1874 fe'i dangosir fel 'Old Mill — flannel' ond, ar ail argraffiad 1912, mae'n ymddangos fel 'Maesmor Mills'.³² Defnyddiwyd 43 a 45 Church Street fel yr adeiladau swyddfa gyda'r tanerdy y tu ôl iddynt. Parhaodd i gynhyrchu tan oddeutu 1990 ac ers hynny aildatblygwyd y safle at ddibenion tai. Roedd tanerdy cynharach, a ddangosir ar fap degwm y 1840au fel 'Skin House' ar Hall Street, ond newidiodd ei ddefnydd ar ddechrau'r 20fed ganrif.³³

Sefydlwyd y cwmni hadau, R. & G. Cuthbert Ltd, yn y dref ar ôl defnyddio melinau segur i gynhyrchu hadau yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Ar ddiwedd y rhyfel, prynodd Cuthbert hen safle'r bragdy ac, yn 1958, adeiladwyd ffatri



Adeiladau Melin Mile End (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

bwrpasol newydd gerllaw ar lannau afon Dyfrdwy er mwyn argraffu a chynhyrchu pocedi hadau gan gwmni arall, sef Dobson a Crowther. Yn 2014, symudodd Dobson a Crowther i safle gyferbyn â Melin Dyfrdwy Uchaf a rhoddodd y gorau i weithredu yn fuan wedyn.

Bragdy Pen y Bryn o tua 1840 fu safle'r bragdy a ddefnyddiwyd gan Dobson a Crowther. Gweithredodd ar sawl ffurf tan y 1870au pan ddaeth yn Fragdy Llangollen Tanqueray. Hwn oedd y prif fragdy yn y dref nes iddo gau yn y 1930au. Gweithredodd bragdai eraill yn y dref yn ystod y 19eg ganrif, gan gynnwys Bragdy'r Crown, Bragdy Talbot a Bragdy'r Sun ar Regent Street. Roeddent i gyd yn ddibynnol ar boblogaeth gynyddol y dref yn ystod twf diwydiannol y 19eg ganrif. Heddiw, adeiladau segur Bragdy Llangollen yw prif olion y diwydiant hwn.



Hen adeilad y bragdy, Bragdy Llangollen (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Adeiladau Domestig

Erys enghreifftiau o adeiladau domestig cynnar, sy'n rhagddyddio twf y dref o ddiwedd y 18fed ganrif ymlaen, o fewn craidd cynnar Bridge Street a Church Street. Mae rhai adeiladau hefyd wedi goroesi ar y strydoedd pellaf, fel Heol y

Capel a Heol y Felin, ond mae gwaith ailfodelu diweddarach drwy gydol y 19eg ganrif — gan gynnwys ailosod ffenestri, gosod blaenau siopau, codi uchder ac ailosod blaenau — wedi celu llawer o'r adeiladau cynnar hyn. Mae'n dra thebygol bod gan lawer o'r adeiladau yn yr ardaloedd hyn graidd cynnar a'u bod ymhlith y cynharaf yn Llangollen.

*Llun o'r archif o'r
ben swyddfa bost
(22–24 Bridge Street)
sy'n tarddu o
ddechrau'r 17eg ganrif
(© Hawlfraint y Goron:
y Cofnod Adeiladau
Cenedlaethol).*



*Hen swyddfa'r bost,
22–24 Bridge Street,
fel y mae heddiw
(© Hawlfraint y Goron:
CBHC).*





Mae 18 Church Street yn brin am fod ei ffrâm bren allanol o ddechrau'r 17eg ganrif yn gyfan. Hyd at y 19eg ganrif, byddai mwy o adeiladau fel hyn wedi bodoli yn y dref gynnar. Byddai'r adeiladau hyn wedi'u gwneud o bren a charreg leol gan ddefnyddio arddulliau a thechnegau adeiladau cynhenid traddodiadol, a oedd yn adlewyrchu natur wledig y dref a'r angen cyfyngedig am adeiladau mawr. Yn yr un modd, mae gan 12 Heol y Capel, y mae ei strwythur o ddechrau'r 16eg ganrif fwy na thebyg, ffrâm bren amlwg ond cafodd ei ehangu yn yr 17eg ganrif a'i addasu wedyn (t. 23). Mae adeiladau cynnar o'r fath yn gymedrol eu maint ac yn dueddol o fod yn adeiladau un llawr ag atig. Mae'r defnydd o gerrig

rwbel garw a ffenestri casment bach lle mai prin yw'r addurniadau pensaernïol yn nodweddiadol o'u cymeriad cynhenid. Mae 1 a 2 Sgwâr Heol y Capel yn enghreifftiau da lle ceir walïau plastr garw wedi'u peintio a ffenestri casment (t. 23).

Mae llawer o'r adeiladau cynnar a ailfodelwyd wedi cadw hanfod eu tarddiad. Mae gan 22 a 24 Bridge Street, er enghraifft, un llawr ag atig talcen ond gosodwyd blaenau siop yno. Newidiwyd eraill yn fwy radical, fel 25 Bridge Street, sy'n tarddu o'r 17eg neu'r 18fed ganrif. Mae ei ffenestri codi cwareli mawr a'i fanylion conglaen carreg yn nodweddiadol o ddiwedd y 19eg ganrif.

Uchod: Adeiladau ar Heol y Felin (6–8). Gall 8, sydd ag atig dormer, fod yn tarddu o ddiwedd yr 16eg ganrif (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith isod: Llun o'r archif o 18 Church Street (© Hawlfraint y Goron: y Cofnod Adeiladau Cenedlaethol).

Isod: 18 Church Street fel y mae heddiw (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Mae Bridge Street a Church Street ill dwy yn cynnwys nifer o adeiladau o'r 18fed ganrif. Mae 14 ac 16 Bridge Street wedi'u dyddio 1754 ac mae 18 wedi'i ddyddio 1775. Maent i gyd yn adlewyrchu'r

newid arddull yn y 18fed ganrif gyda dechrau uchder adeilad tri llawr llawn, ffenestri codi (cwareli bach) llawer mwy, y defnydd o frics a nodweddion pensaernïol fel manylion plastro conglfeni a ffenestri.

Llun o'r archif o 14–16 Bridge Street. Mae'r adeiladau wedi'u dyddio 1754 (© Hawlfraint y Goron: y Cofnod Adeiladau Cenedlaethol).



14–16 Bridge Street fel y maent heddiw (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Ceir nifer o dai o'r 18fed ganrif ar Butler Hill, fel Plas Newydd, Pen y Maes a Min Nant (t. 60), a ailfodelwyd wrth i'r ffasïwn newid ddiwedd y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif. Mae Siamber Wen ar Wern Road yn dŷ o ddechrau'r 18fed ganrif a ailfodelwyd ar ffurf Gothig gref oddeutu 1800 (t. 61), ffurf a ailadroddwyd fwy na thebyg mewn manau eraill yn y dref yn Willow House ar Willow Street (t. 24) a Thregwern ar Hall Street (t. 60). Mae'r gwaith ailfodelu pensaernïol hwn yn amlwg yn adlewyrchu chwaeth y dydd am yr Arddunol a'r Pictiwrésg.

Adeiladwyd filas ar wahân ffasïynol newydd, fel Fair View a Bwthyn Arnon ar Ffordd yr Abaty a Fila Dee ar Heol y Felin, ac adeiladwyd tai teras ar Regent Street a oedd newydd ei gosod

allan (10–34). Gyda'i gilydd, mae hyn yn dynodi datblygiad tuag at bensaernïaeth fwy cwrtais yn y dref a thuedd am adeiladau mwy o faint a mwy sylweddol a llai cynhenid.

Mewn manau eraill, amrywiol yw hanes adeiladau domestig cyn 1860 sydd wedi goroesi ond mae'n adlewyrchu'r newidiadau a welwyd yn sgil poblogrwydd cynyddol y dref a'r ardal, yn ogystal â mwy o gyfoeth a ffyniant, ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif.

Lleolwyd adeiladau domestig Fictoraidd o'r cyfnod o dwf ar ôl 1860 yn y grid o strydoedd i'r gorllewin o Heol y Castell. Hefyd, cafwyd datblygiadau llai dwys mewn rhannau eraill o'r dref, naill ai fel adeiladau unigol neu derasau byr.



Adeiladwyd Bwthyn Arnon fel fila ar wahân ffasïynol ar Ffordd yr Abaty ddechrau'r 19eg ganrif (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Tai teras yn 10–18 Regent Street, a adeiladwyd yn hanner cyntaf y 19eg ganrif (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Mae'r adeiladau o'r cyfnod hwn wedi'u gwneud o frics bron bob tro (weithiau wedi'u cyfuno â phlastr garw neu rendr) gyda defnydd addumiadol o frics o wahanol liw ac elfennau terracotta caledosg fel teils gwrym. Mae'r defnydd hwn o frics a therracotta yn adlewyrchu dominyddiaeth gweithgynhyrchu diwydiannol deunyddiau adeiladu ar y pryd yn ardal Cysyllte/Cefn Mawr Dyffryn Dyfrdwy isaf gerllaw a pha mor hawdd y gellid ei gludo'r pellter bach i Langollen.

Yng ngrid o strydoedd Heol y Castell, mae adeiladau domestig yn cynnwys dau lawr gan amlaf, gyda rhai terasau brics tri llawr. Gwelir ffenestri codi cwareli mawr yn dominyddu gyda pheth manylder ar y ffenestri ac elfennau eraill fel ymylon bondo. Mae rhai terasau, fel yr hyn a geir ar Queen Street a West Street, wedi cadw iaith bensaernïol y cyfnod Sioraidd gyda rendr a chonglfeini cerrig; er enghraifft, mae gan 20 West Street ffrâm drws clasurol cynhenid. Gwelir elfennau mwy addumiadol, fel fframiau ffenestri rendr wedi'u codi yn 20 West Street ac adeiladau cyfagos, a phennau ffenestri tai amrywiol ar Queen Street a Heol y Farchnad. Lle mai bric yw'r prif ddeunydd adeiladu a'i fod i'w weld, mae gan dai gynllun cymesurol syml o hyd gyda phennau a siliau ffenestr carreg neu fric. Weithiau, gwneir defnydd addumiadol o wahanol liwiau o frics, fel ar Heol y

Farchnad gyferbyn â safle'r farchnad, ac weithiau ceir elfen o addum pensaernïol fel ffenestri oriel, manylion bondo neu derracotta. Yn aml, dim ond ar gyfer drychiadau allanol sydd yn y golwg y defnyddir brics. Dangosir hyn gan dalcen John Street sydd yn y golwg, lle gwelir bod carreg yn dal i gael ei defnyddio ar gyfer drychiadau cefn.

Yn gyffredinol, ceir newid o ran arddull, maint ac addum adeiladau domestig sy'n adlewyrchu'r newid mewn patrymau adeiladu ar ôl 1860. Yn fras, daw brics i'r golwg ac mae tai yn dueddol o gael eu datblygu'n ddwys wrth i adeiladau llai o faint fod yn agosach at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r arddulliau cyffredinol yn barhad o dueddiadau'r 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif.

Adeiladau Modern

Y llyfrgell ar Parade Street yw un o'r adeiladau modern mwyaf nodedig yn y dref. Wedi'i hadeiladu yn 1970–72 a'i dylunio gan benseiri Cyngor Sir Ddinbych, sef R. A. C. MacFarlane ac E. Langford Lewis, mae ganddi gynllun 16 ochr anarferol lle defnyddir cerrig garw wedi'u hail-greu gyda llawr uchaf plaen ac arcêd parhaus o ffenestri pigfain ar y llawr gwaelod.

Y llyfrgell ar Parade Street a adeiladwyd yn 1970–72 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).





Banc NatWest o'r 20fed ganrif ar Heol y Castell (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Mae adeilad NatWest ar ben deheuol (gorllewinol) Heol y Castell yn enghraifft o ddatblygu trefol ar ddiwedd yr 20fed ganrif lle defnyddir arddull a deunyddiau o'r cyfnod. Gwelir dylanwad adloniant a hamdden o'r 20fed ganrif mewn dau adeilad — yr hen garej/sinema o'r 1920au yn 26–28 Heol y Castell, sydd bellach yn siop, a'r hen garej ar George Street.

Deunyddiau a Manylion Adeiladu

Mae'r dref yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau pensaernïol, sy'n dangos ei thwf dros amser. Y ddaear leol a thraddodiad rhanbarthol fframiau pren a bennodd gryn dipyn o'r nodweddion pensaernïol cynharach. Diffinnir nodweddion y dref ddiweddarach gan fwy o ddiwydiannu a chysylltiadau cyfathrebu newydd a wnaeth ddatblygu o'r 19eg ganrif.

Yn 1827, disgrifiodd W. T. Simpson y dref fel a ganlyn: '... for the most part formed with obscure meanlooking houses, built of the dark-coloured silicious stone procured from the rocky bed of the river, and from the surrounding hills. The houses are seldom more than two stories high, and have a very somber appearance, except where the owners have had the good taste to avail themselves of the lime which is near at

hand, in rough-casting or plastering the fronts. The difference of the appearance of the buildings thus finished is so advantageous that it is to be hoped the plan will be generally adopted.'³⁴

Yn 1849, nododd Samuel Lewis: 'The houses of the town are in general old and of mean appearance, though occasionally interspersed with some handsome modern dwellings ... they are for the most part built of a dark shaly stone, which gives them a very dull aspect.'³⁵

Codi waliau

Mae'n debygol mai pren oedd y deunydd cynharaf a ddefnyddiwyd i godi waliau yn Llangollen, ynghyd â pha bynnag garreg oedd ar gael yn hawdd yn lleol. Mae'r fframiau pren a welir ar Church Street (18) o hyd yn enghraifft dda o'r traddodiad adeiladu cynhenid hwn, sy'n dyddio'n ôl cyn y 18fed ganrif (t. 47). Mae'n siŵr bod llawer o'r adeiladau yn y dref gynnar wedi cadw rhannau o strwythurau cynharach y tu ôl i ffasadau diweddarach, a ychwanegwyd er mwyn ehangu (lledaenu neu godi uchder) adeiladau hŷn mewn arddulliau newydd.

Brics a cherrig yw'r deunyddiau mwyaf cyffredin sy'n goroesi a ddefnyddiwyd i godi waliau yn y dref. O'r 18fed ganrif, roedd carreg ar gael yn hawdd, gyda ffynonellau da o galchfaen i'r dwyrain o'r dref a llechi a siâl i'r gorllewin.

Gwaith bric amryliw yn y golwg yn 8–10 Berwyn Street
(© Haulfrait y Goron: CBHC).



Byddai adeiladau cerrig yn aml yn cael eu gadael yn foel neu'n cael eu gorchuddio â chalch neu blastr garw, neu orffeniad rendr fel rendr sgrafellog (stucco). Gall adeilad cerrig â rhyw fath o orffeniad ar y waliau ddynodi'r defnydd o gerrig o ansawdd gwael neu fwriad i gelu strwythur cynharach a newidiwyd neu a gafodd flaen newydd. Pan mae adeiladau cerrig (neu frics) wedi cael gorchudd gorffenedig neu addumiadol, mae hyn yn aml er mwyn cydymffurfio ag arddull bensaernïol, yn enwedig yn y cyfnod Sioraidd. Roedd y defnydd o orffeniadau rendr hefyd yn fodd i ychwanegu manylion coeth, fel y ffenestri Gothig ar Sgwâr yr Abaty neu bennau ffenestri ar Queen Street.

Daeth brics yn fwy cyffredin o ganol y 18fed ganrif, yn gyntaf yn sgil datblygu gwell cysylltiadau trafniadaeth ac yna gyda thwrf cynhyrchu brics diwydiannol yn y 19eg ganrif, yn enwedig yn yr ardaloedd o amgylch Wrecsam a oedd gerllaw. Byddai brics yn cael eu gwyngalchu gan amlaf pan y'u defnyddiwyd ar adeiladau yn y 18fed a'r 19eg ganrif. Mewn adeiladau diweddarach, byddent yn fwy tebygol o gael eu gadael yn foel. Defnyddiwyd brics yn addumiadol hefyd, fel yn nhrefniant amryliw 8–10 Berwyn Street, neu drefniant brith amrywiol, fel y brics coch a melyn yn 8–10 Regent Street. Yn sgil datblygu diwydiannau lleol ar ddiwedd y 19eg ganrif, bu modd defnyddio mwy o frics o ansawdd uchel, yn ogystal â theils a therracotta, yn aml ar y cyd â cherrig (capanau ffenestri er enghraifft).

Toeon

Mae toeon gwellt wedi goroesi mewn ardaloedd o amgylch Dyffryn Llangollen ar y cyd ag adeiladau fframiau pren yn ogystal â rhai cerrig. Mae'n debygol bod gwellt wedi'i ddefnyddio ar gyfer y tai cynharaf yn y dref er ei fod wedi diflannu bellach.

Llechi yw'r prif ddeunydd ar gyfer toeon bellach ac mae wedi'i gloddio o chwareli yn yr ardal ers yr 17eg ganrif. Byddai wedi bod ar gael yn hawdd o'r 19eg ganrif wrth i gynhyrchiant y chwareli llechi gynyddu, yn dilyn mwy o ddiwydiannu a gwell cysylltiadau trafniadaeth yn yr ardal gyfagos. Byddai llechi wedi bod yn un o gyfres o ddeunyddiau adeiladu safonol a weithgynhyrchwyd mewn ffatri o ddechrau'r 19eg ganrif ymlaen, ond yn arbennig yn ystod twf y dref ar ôl 1860 pan gafwyd datblygiad mwy cynhwysfawr ac unedig.

Gwaith Saer

18 Church Street yw'r unig adeilad yn y dref lle nad yw ei ffrâm bren sgwâr allanol wedi newid fawr ddim. Fodd bynnag, mae fframiau pren wedi goroesi mewn mannau eraill, fel yr adeiladwaith nenfforch a ddefnyddiwyd yn 31 Church Street. Lle maent wedi goroesi, mae gan ffenestri cynnar gasmentau cwareli bach; mae'r rhain yn wahanol i ffenestri'r 18fed ganrif ymlaen sy'n ffenestri codi 16 cwarel fel arfer. O ganol y 19eg ganrif, gwelwyd ffenestri codi corniog mwy o faint, sydd nid yn unig yn adlewyrchu arddulliau pensaernïol newidiol, ond hefyd newidiadau ym maes gweithgynhyrchu a oedd yn fodd i wneud cwarelau gydr mwy o faint.

Ardaloedd â Nodweddion

I. Y Dref Gynnar

Cefndir Hanesyddol

Mae Llangollen fodern wedi cadw craidd y dref lawer cynharach sy'n canolbwyntio ar eglwys Sant Collen. Er i ddatblygiadau mwy diweddar o ran cysylltiadau trafnidiaeth a chynllunio trefol symud pwyslais y dref, roedd ei chanolfan gyntaf yn canolbwyntio ar Church Street a Bridge Street, a'r groesfan dros afon Dyfrdwy. Goroesodd y dref gynnar hon yn gyflawn fwy neu lai nes i ffordd Caergybi gael ei hadeiladu o 1815. Mae cynllun 1791 (t. 75) yn adlewyrchu, i raddau helaeth, sut y datblygodd y dref o amgylch y strwythurau hysbys cynharaf — yr eglwys o'r 13eg ganrif sy'n tarddu o'r chweched neu'r seithfed ganrif a'r bont, sy'n debygol o ddyddio o'r 16eg neu'r 17eg ganrif gyda'i tharddiad yn y 13eg ganrif efallai.³⁶



Eglwys Sant Collen, Church Street, yng nghanol y dref gynnar (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Isod: Y bont dros afon Dyfrdwy (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dengys cynllun 1791 groesfan yr afon a ffordd dwyrain-gorllewin ar ben gogleddol y bont sydd wedi'i nodi 'To Wrexham' (dwyrain) a 'Fm Ruthin' (gorllewin) (t. 75). Dangosir nifer o adeiladau o amgylch y gyffordd hon, ynghyd â lôn i'r gogledd. Ni ddangosir cyffordd debyg tuag at ben dwyreiniol Church Street, sy'n awgrymu bod y brif ffordd ar hyd Dyffryn Dyfrdwy i'r gogledd o'r afon. Mae manylion pen dwyreiniol Church Street yn amwys: mae'r cynllun yn dangos y stryd yn terfynu mewn sgwâr agored cyn i lôn (Butler Hill) droi i'r de. Prin oedd unrhyw strydoedd eraill ar y pryd: roedd Heol y Capel yn bodoli fel lôn i'r ficerdy i'r de o'r dref ac roedd dwy lôn, siŵr o fod yn arwain dros y brynau i'r de. Cross Lane, i'r dwyrain o'r eglwys, yw'r unig stryd nodedig arall; amgylchynai ardal fechan i ben dwyreiniol Church Street.

Mae bodolaeth un brif stryd yn unig ar ddiwedd y 18fed ganrif yn awgrymu nad oedd y dref wedi datblygu rhyw lawer y tu hwnt i'w lleoliad gwreiddiol, ac nid oedd ychwaith wedi tyfu nac ehangu rhyw lawer. Mae cynllun 1791 a darluniau a nodiadau Llangollen yn 1810 gan John Hughes (tt. 22, 75) yn awgrymu tref ag un brif stryd gyda gwaith datblygu ac ailddatblygu dwys ar ei hyd ac yn union y tu ôl iddi. Cyfyngodd agosrwydd yr afon ar y pen gogleddol ar unrhyw ehangu i'r cyfeiriad hwn ond byddai datblygiadau iard anffurfiol wedi digwydd y tu ôl i'r prif adeiladau ar ochr y stryd.

Datblygiad bach ar Sgwâr Heol y Capel (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Nodweddion Adeiladu

Mae gan dref gynnar Llangollen gynllun a gwedd sy'n wahanol iawn i'r rhannau eraill o'r dref. Mae natur droellog a thonnog Bridge Street a Church Street yn groes i brif strydoedd eraill y dref, sy'n dueddol o fod wedi'u dylunio'n fwy cydwybodol ac wedi'u gosod allan mewn llinellau syth. O ganlyniad, mae Bridge Street a Church Street yn edrych yn fwy amrywiol ac yn llai ffurfiol. Ceir hefyd adeiladau mwy cymhleth a dwys — a ailadeiladwyd yn aml yn llwyddiannus yn unigol ac mewn grwpiau — sy'n creu cymeriad amrywiol nas gwelir yn unman arall yn y dref.

Er mai prin yw'r adeiladau cynnar sy'n bodoli o hyd, mae'r strwythurau llain unigol — yn enwedig ar hyd Church Street — wedi goroesi a phrin fu'r gwaith datblygu o fewn ffyrtyriad y brif stryd ers dechrau'r 20fed ganrif. Ceir man agored, yn bennaf o amgylch yr eglwys ac yng ngerddi Gwesty'r Hand.

Ynghyd â'r eglwys, mae rhai adeiladau cynnar yn amlwg: mae 18 a 31 Church Street yn enghreifftiau o adeiladau cynhenid bach o'r 17eg ganrif (tt. 23, 47). Mae eraill yn llai amlwg: cafodd Bryn Dŵr, gyferbyn â'r eglwys, ei adeiladu yn yr 17eg ganrif hefyd ond cynyddwyd ei uchder a chafodd flaen newydd yn y 19eg ganrif ac mae ei gymeriad yn wahanol iawn. Mewn manau eraill, mae datblygiadau bach cynnar i iardiau wedi goroesi, fel Sgwâr Heol y Capel.

Mae rhywfaint o wahaniaeth o ran y defnydd o adeiladau yn yr ardal: mae Church Street wedi cadw naws domestig ar raddfa fach yn wahanol i Bridge Street (a'r ardal i'r gorllewin o'r eglwys) lle mae'r adeiladau yn fwy sylweddol a masnachol eu natur fel rheol. Mae Bridge Street yn cynnwys rhai o'r gwestai pwysicach yn y dref (Gwesty'r Royal a Gwesty'r Hand ar y gyffordd â Church Street) yn ogystal ag adeiladau sy'n adlewyrchu ffyniant cynyddol yn y 18fed ganrif. Mae 14–20 (eilrif) Bridge Street yn ddatblygiadau Sioraidd sylweddol gyda rhai manylion da sy'n nodweddiadol o'r cyfnod. Mae llwyddiant masnachol yn y 19eg ganrif yn amlwg yn 15, 17 a 19 Bridge Street, sydd o'r cyfnod Sioraidd hwyr ond â blaenau siop mwy diweddar.



Uchod: Adeilad domestig ar raddfa fach yn 27–32 Church Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Y gornel rhwng 22 Bridge Street a 2 Heol y Capel sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng maint yr adeiladau ar y ddwy stryd (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Mae Gwesty'r Royal yn dal i fod yn adeilad o bwys ar Bridge Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).





Llun o'r archif o 19–23 Bridge Street. Mae'r adeiladau'n dyddio o ddechrau'r 18fed ganrif gyda blaen siopau diweddarach, ond sy'n dal i fod yn hanesyddol (© Hawlfraint y Goron: y Cofnod Adeiladau Cenedlaethol).

Mae'r adeiladau yn yr ardal yn dueddol o fod wedi'u gorffen â rendr plaen neu blastr garw gyda manylion pensaemiol wedi'u datblygu ychydig (conglfeini, fframiau ffenestri ac ati).

2. Twf yn y 19eg Ganrif: O amgylch y Gamlas a'r Rheilffordd

Digwyddodd y cam datblygu hwn o amgylch y gamlas a'r rheilffordd i'r gogledd o'r dref yn sgil datblygu cysylltiadau trafndiaeth a diwydiant yn ogystal â dylanwad cynyddol twristiaeth a theithio. Mae'r cam hwn yn wahanol i'r newidiadau

topograffaid mawr a ddeilliodd o adeiladu Heol y Castell o 1860 a gellir ei gymharu â'r newidiadau i'r dref ar ochr ddeheuol yr afon yn ystod y cyfnod hwn.

Cefndir Hanesyddol

Bu rhywfaint o waith datblygu cynnar o'r 16eg ganrif i'r gogledd o'r dref, a chyn hynny fwy na thebyg, wrth gyffordd ffordd Wrecsam–Rhuthun â'r bont. Dengys map y degwm o'r 1840au (t. 76) ddatblygiad ar hyd Ffordd yr Abaty i'r gorllewin a Heol y Felin i'r dwyrain, a allai fod yn gysylltiedig â theithwyr ar hyd ffordd Wrecsam yn dargyfeirio i'r dref dros y bont.³⁷

Cafodd ardaloedd Lôn Werdd a Wharf Hill eu datblygu, yn rhannol o leiaf, erbyn 1840, fwy na thebyg am eu bod yn agos i'r dref a chyffordd y ffordd dros y bont. Byddai'r gwaith o adeiladu'r gamlas rhwng 1804 ac 1808 wedi cynyddu traffig a gweithgarwch yn yr ardal ymhellach. Arweiniodd y gwaith o adeiladu'r rheilffordd a datblygu melinau Dyfrdwy oddeutu 1860 at ragor o waith adeiladu. Erbyn y cyfnod hwn, roedd y llain gul o dir rhwng yr afon a'r bryniau i'r gogledd wedi'i rhannu gan linellau cyfochrog y rheilffordd, y ffordd a'r gamlas gyda datblygiad cymysg yn y canol, yn amrywio o dai gweithwyr i dafarn y Ponsonby Arms a Fila Dee. Ehangwyd yr ardal ymhellach gyda filas gwasgaredig ar hyd Ffordd

yr Abaty. Erbyn dechrau'r 20fed ganrif, roedd yr ardal wedi datblygu ei ffurf fodern i raddau helaeth.

Fodd bynnag, gwelwyd datblygiadau mawr yn yr 20fed ganrif, yn arbennig cael gwared ar y rheilffordd i'r dwyrain o'r bont a rhoi'r gorau i weithredu melinau Dyfrdwy. Cafodd Melin Dyfrdwy Isaf ei dymchwel ac adeiladwyd fflatiau ar ran o'r safle; mae Melin Dyfrdwy Uchaf yno o hyd ond mae'n segur ar hyn o bryd. Cafodd yr ysgol ei disodli ddiwedd yr 20fed ganrif gan Ysgol Dinas Brân a oedd yn fwy o faint ac adeiladwyd canolfan Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.



Fila Dee, Heol y Felin, a adeiladwyd yn 1837 gan John Hughes, gweithgynhyrchydd gwlan (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Bwthyn Dee Bank, Lôn Werdd (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Nodweddion Adeiladu

Mae'r adeiladau amrywiol a geir yn yr ardal hon yn ymwneud â'i datblygiad hanesyddol y tu allan i'r dref a'i chysylltiadau agos â chysylltiadau trafniadaeth i'r dref. Mae'r bont a'r adeiladau cynnar ar ei phen gogleddol wedi goroesi. Mae'n

debygol bod 8 Heol y Felin yn dyddio o ddiwedd yr 16eg ganrif. Er iddo gael ei addasu yn y 19eg ganrif, mae ei do sydd ar oledf serth yn arwydd allweddol o adeilad cynharach ac mae'n awgrymu bod yr ardal hon o amgylch y bont wedi'i datblygu o'r 16eg ganrif o leiaf.

Mae'r adeiladau i'r naill ochr o 8, sef 4 a 6 yn arbennig, ychydig yn hwyrach ac mae'n debygol eu bod yn tarddu o ddechrau'r 18fed ganrif neu'n gynt. Mae eu goroesiad yn awgrymu bod hon yn rhan bwysig o'r dref a ddatblygwyd ac a ailddatblygwyd o'r 18fed ganrif ymlaen. Roedd yn sicr yn ardal boblogaidd o ddiwedd y 18fed ganrif pan adeiladwyd nifer o filas Regentaidd yn ardal Lôn Werdd ac ymhellach ar hyd Heol y Felin.

Mae'r rheilffordd, a'i hadeiladau a'i strwythurau, hefyd yn ychwanegu at nodweddion yr ardal hon ac mae'n atyniad arbennig i ymwelwyr â'r dref. Mae'r man agored, a'r golygfeydd i'r orsaf



Uchod: Green Lodge a adeiladwyd yng nghanol y 19eg ganrif ar Lôn Werdd (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: 6–8 Heol y Felin (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Gorsaf reilffordd Llangollen (© Hawlfraint y Goron (2016) Cadw).

ac oddi yno, y traciau a'r bont ymhlith rhai o agweddau mwyaf diffiniol nodweddion y dref. Prin yw'r dystiolaeth ffisegol o'r llinell i'r dwyrain o'r bont heddiw ac nid oes unrhyw awgrym bod y dref yn arfer bod yn gysylltiedig â rhwydwaith rheilffordd ehangach.

Yn yr un modd, mae'r gwaith o ailddatblygu safle Melin Dyfrdwy Isaf yn floc o fflatiau wedi amharu ar nodweddion diwydiannol yr ardal hon, er bod rhai o dai gweithwyr o ddechrau'r 18fed ganrif wedi goroesi gerllaw. Mae adeiladau Melin Dyfrdwy Uchaf wedi goroesi ac maent yn arwydd pwysig a phrin o natur ddiwydiannol y rhan hon o'r dref. Felly hefyd dai cowrt y gweithwyr diwydiannol sydd wedi goroesi yn agosach at y bont ar ben gogleddol Heol y Felin.

O ganlyniad i dopograffeg yr ardal, nid yw datblygiadau modern yr ysgol a safle Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn amharu ac maent o'r golwg i raddau helaeth. Mae Ffordd yr Abaty, sy'n arwain i'r gorllewin, wedi gweld datblygiad parhaus yn ystod yr 20fed ganrif ond mae wedi cadw nodweddion tai ar wahân mwy o faint a sefydlwyd pan gafodd filas eu hadeiladu ar ddechrau'r 19eg ganrif.

3. Twf yn y 19eg Ganrif: Ffordd Caergybi

Digwyddodd y cam datblygu hwn o amgylch ffordd Caergybi i'r de o'r dref yn sgil datblygu cysylltiadau trafniadaeth a diwydiant yn ogystal â dylanwad cynyddol twristiaeth a theithio. Mae'r cam hwn yn wahanol i'r newidiadau topograffaid mawr a ddeilliodd o adeiladu Heol y Castell o 1860 a gellir ei gymharu â'r newidiadau i'r dref ar ochr ogleddol yr afon yn ystod y cyfnod hwn.

Cefndir Hanesyddol

Bu rhywfaint o ddatblygu yn yr ardal yn y 18fed ganrif cyn adeiladu ffordd Caergybi, ond fe'i cyfyngwyd i rai adeiladau y tu allan i'r brif dref. Dim ond tri llwybr i'r de o'r dref a ddangosir ar gynllun 1791 (t. 75) ac mae'n

debygol bod yr ardal hon yn agored ac yn wledig iawn ei natur.³⁸

Mae casgliad o adeiladau ar Regent Street (1, 2 a 7 Regent Street) a Thŷ'r Eglwys (21 Regent Street) yn tarddu o ddiwedd yr 17eg a'r 18fed ganrif. Er eu bod yn rhagflaenu ffordd Caergybi, fe'u haddaswyd ar ôl i'r ffordd gael ei hadeiladu. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o adeiladau ar ôl 1800, nid ydynt yn gyflin â Regent Street ac mae Tŷ'r Eglwys yn amlwg ymhellach yn ôl.³⁹ Mae grŵp arall o adeiladau (39–47 (odrifau) Regent Street a Thafam y Sun) yn tarddu o ddiwedd y 18fed ganrif yn rhannol o leiaf (yn enwedig 39, 41 a 43) ac mae'n ddigon i awgrymu bod llinell Regent Street (ffordd Caergybi) yn cael ei ffurfioli â gwaith datblygu cyn i Telford gyrraedd.

Brig: 1–3 Regent Street sydd ymhellach yn ôl i'r llinell adeiladau diweddarach
(© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Gwaelod: Llun o'r archif o flaen gogleddol Tŷ'r Eglwys, Regent Street. Yr ochr hon, ar Cross Lane, oedd y prif flaen gwreiddiol cyn i'r blaen debeuol gael ei newid ar ddechrau'r 19eg ganrif i ddod yn brif ffasâd
(© Hawlfraint y Goron: y Cofnod Adeiladau Cenedlaethol).





Brig: Min Nant, Butler Hill © Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde uchaf: Y swyddfa bost (hen Goleg y Bedyddwyr), Berwyn Street © Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Tregwern, Hall Street © Hawlfraint y Goron: CBHC).

O blith y datblygiadau eraill i'r de o'r dref, mae Butler Hill yn ymestyn i'r de o ben gorllewinol Church Street. Mae'r tri adeilad a ddangosir ar gynllun 1791 — Min Nant, Pen y Maes a Phlas Newydd fwy na thebyg — i gyd yn tarddu o ddechrau'r 18fed ganrif ond cawsant eu haddasu ddiwedd y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif.

Ar gynllun 1791 (t. 75), mae Heol y Capel yn ymestyn i'r de i gasgliad o adeiladau, sy'n cynnwys y ficerdy⁴⁰ a'r ardal a elwir bellach yn Sgwâr Fictoria fwy na thebyg. Mae ffordd ag arwydd 'To Corwen', sef Hall Street/Willow Street fwy na thebyg, yn rhedeg i'r gorllewin ac mae'n siŵr mai Heol y Bryn bellach yw lôn i'r dwyrain ag arwydd i Glynne — Glyn Ceiriog o bosibl.

Roedd nifer o adeiladau ar Hall Street (yr ardal nas dangosir ar gynllun 1791), gan gynnwys 21-25, a adeiladwyd oddeutu 1800, ond newidiodd yr ardal hon yn sylweddol erbyn map y degwm y 1840au (t. 76).⁴¹ Dengys ardal Sgwâr Fictoria fel y mae heddiw i raddau helaeth gyda ffordd Caergybi yn torri llinell ar hyd ymyl ddeheuol y dref; serch hynny, parhaodd Sgwâr Fictoria a Hall Street i fod yn ffocws datblygu.

Mae'n bosibl bod Sgwâr Fictoria yn cynrychioli ailganoli'r dref, a ragddyddiodd y newidiadau ar ôl 1860, ond a gollwyd pan ddigwyddodd y gwaith datblygu diweddarach a mwy o faint. Yn sicr, mae rhai o'r adeiladau ar Heol y Castell (29 — sydd bellach yn fwyty) yn rhagddyddio 1860 ac mae eu lleoliad ar linell sy'n rhedeg

yn uniongyrchol o'r bont yn awgrymu ymgais gynharach i ymestyn canol y dref i ffwrdd o'r ardal o amgylch yr eglwys.

Erbyn canol y 19eg ganrif, roedd yr ardal hon wedi'i datblygu ymhellach gyda neuadd newydd y dref, Capel Rehoboth, Coleg y Bedyddwyr (swyddfa bost bellach) a'r Prince of Wales ar Regent Street. Roedd hefyd adeiladau diwydiannol (mae 30 Regent Street yn hen ladd-dy a siop cigydd) ac adeiladau domestig (gan gynnwys 27 Hall Street, a Thregwern a Willow House, a ailfodelwyd ar yr adeg hon) yn ogystal â'r rhan fwyaf o'r terasau sy'n wynebu Regent Street. Erbyn argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnans yn 1874 (t. 77), roedd yr ardal ar ei ffurf fodern fwy neu lai, ac eithrio rhywfaint o waith datblygu ddiweddi y 19eg ganrif, sef tai yn bennaf. Yn ystod

yr 20fed ganrif, cafodd yr ardal i'r de-orllewin ei datblygu'n sylweddol at ddibenion rhagor o dai.

Nodweddion Adeiladu

Mae nodweddion yr ardal hon yn amrywio gydag amrywiaeth o adeiladau sy'n adlewyrchu twf damiog ar hap y dref y tu hwnt i'r brif ardal hanesyddol. Adeiladwyd filas domestig ffasiynol pan oedd y dref fwyaf poblogaidd yn ystod y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif (Tregwern, Willow House a Siamber Wen). Adeiladwyd rhai eraill ac yna cawsant eu haddasu yn fuan iawn wedyn o ganlyniad i gynllun a ffyniant y dref a oedd yn newid yn gyflym (39, 41 a 43 Regent Street).



Siamber Wen, un o'r filas ffasiynol a adeiladwyd pan oedd y dref fwyaf poblogaidd yn ystod y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Isod: Tai o ddechrau'r 18fed ganrif, a newidiwyd yn ddiweddarach, 39–47 Regent Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Gorffeniadau adeilad gwahanol yn 31–33 Regent Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Isod: Capel Reboth ar Sgwâr Fictoria a adeiladwyd mewn ymateb i'r boblogaeth gynyddol (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Mae gan yr adeiladau teras ar hyd Regent Street yr un rhesi parhaus o adeiladau tri llawr, ond maent yn wahanol o ran golwg, sy'n adlewyrchu eu datblygiad damiog. Defnyddiwyd deunyddiau gwahanol (bric a stucco) ar adegau gwahanol ar gyfer datblygiadau gwahanol.

Mewn man arall, gellir gweld datblygiad diwydiannol y dref o hyd ar safle Melin Dyfrdwy. Mae adeiladau'r felin wedi'u dymchwel erbyn hyn ond mae'r llain a'r rhesi cyfagos o dai gweithwyr yn dangos maint a dylanwad sylweddol y diwydiant melinau yn y dref. Mae'r hen danerdy ar Hall Street wedi goroesi, er iddo gael ei newid. Erys adeiladau eraill sydd hefyd yn adlewyrchu poblogaeth gynyddol y dref o ddiwedd y 18fed ganrif, gan gynnwys hen neuadd y dref, capeli ac ysgolion.

Yn unol â natur ffordd Caergybi, roedd y gwaith datblygu ar hyd Regent Street a Berwyn Street yn unfurf ac wedi'i gyfyngu i ffyrntiadau stryd parhaus. Mewn man arall, mae'r dopograffeg wedi esgor ar waith datblygu llai unfurf er y cyfyngwyd arno'n bennaf gan lwybrau a fodolai eisoes (y rhai a ddangosir ar gynllun 1791, t. 75) a lle dylanwadodd cynllun y ddaear arno'n fawr gan arwain at ddatblygiadau mwy unigol llai o faint.



4. Plas Newydd

Cefndir Hanesyddol

Cafodd Plas Newydd a'r gerddi o'i amgylch eu creu gan Ferched Llangollen. Maent yn enghreifftiau gwych o bensaerniaeth a garddio Rhamantaidd o ddiwedd y 18fed ganrif i ddechrau'r 19eg ganrif.

Y merched dan sylw oedd y Foneddiges Eleanor Butler (1739– 1829) a Miss Sarah Ponsonby (1755–1831). Cafodd y ddwy eu geni i deuluoedd Gwyddelig bonheddig ond gadawsant Iwerddon yn 1778 ac ymgartrefu yn Llangollen yn y pen draw yn 1780 ar ôl teithio o amgylch Cymru. Gwnaethant rentu bwthyn carreg bach, ar y tir uchel yn union i'r de o'r dref ac uwchlaw dyffryn serth i'r dwyrain, a'i ailenwi'n Blas Newydd. Dewisodd y merched fyw ymddeoliad ecentrig ar eu termau hwy eu hunain, gan groesawu symrlwydd gwledig, cymdeithas leol a difyrnu ymwelwyr a oedd ar eu ffordd i ac o Iwerddon. Dros yr hanner can mlynedd nesaf gwnaethant ymestyn y bwthyn gwreiddiol yn raddol gan

ychwanegu ffenestri Gothig a chanopiâu, a phortsh coeth. Manteisiwyd ar eu hoffder o gasglu derw cerfiedig a gwydr lliw gan addurno'r tŷ mewn modd Rhamantaidd y tu mewn a'r tu allan. Prynwyd Plas Newydd gan y Cadfridog John Yorke o Erddig yn 1876. Ymestynnodd y tŷ ymhellach gan ychwanegu'r ffrâm bren ffug. Nid yw ei waith ymestyn wedi goroesi ond mae gan y tŷ ymddangosiad ffrâm bren o hyd. Yn y diwedd, yr awdurdod lleol a ddaeth yn berchen ar Plas Newydd a'r gerddi.

Cafodd y gerddi eu creu gan y merched yn bennaf rhwng 1780 a 1831. Roedd y bwthyn wedi'i amgylchynu gan gaeau pan gyrhaeddodd y ddwy yn 1780 ac roedd eu nod o fyw bywyd gwledig syml yn cynnwys garddio, a ddylanwadwyd yn fawr gan syniadau cyfoes ynghylch tirweddau a gerddi Rhamantaidd. Rhannwyd y caeau o'u hamgylch ganddynt a'u plannu er mwyn creu prysgoed, llwybrau cerdded troellog, gardd lysiau (â gwrych fel ffin yn gyntaf ac yna wal) a llaethdy. Crëwyd strwythurau gwledig fel ffensys, seddi, pontydd a deildy'r Foneddiges Eleanor yn edrych dros y dyffryn. Erbyn 1790 roedd yr ardd yn cael ei hedmygu'n fawr gan ymwelwyr, ond parhaodd y gwaith nes

Mae Plas Newydd wedi cadw'r ffrâm bren ffug a gyflwynwyd ddiwedd y 19eg ganrif (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

oddeutu 1800 gan gynnwys newid llif yr afon yn y dyffryn er mwyn creu pyllau a rhaeadrau.

Mae'r rhan fwyaf o blanhigion a strwythurau'r merched wedi diflannu a chyflwynwyd elfennau eraill fel yr ardd ffurfiol o flaen y tŷ ers iddynt fyw yno. Serch hynny, yr hyn a grëwyd gan y merched yw strwythur sylfaenol Plas Newydd a'i erddi yn bennaf.

Nodweddion Adeiladu

Yn fras, mae'r ardal â nodweddion mewn siâp hirgrwn i'r de-ddwyrain o'r dref mewn cwm anghysbell, gyda Butler Hill i'r gorllewin a nant Cyflymen i'r dwyrain. Mae'n cynnwys y tŷ, ei adeiladau allan cysylltiedig a'r gerddi.

Lleolir y tŷ i'r gogledd o'r ardal gyda'r brif fynedfa o Butler Hill ar hyd lôn droellog sydd wedi'i leinio

â ffawydd. Ceir lôn arall i'r gogledd sy'n arwain at parterre o flaen y tŷ. Lleolir adeilad stabl un llawr bach i'r de-orllewin o'r tŷ ar ochr ddeheuol y lôn.

Saif y gerddi i'r de, dwyrain a gogledd-ddwyrain o'r tŷ ac maent mewn dwy brif ran. Ceir gardd uchaf yn bennaf i'r de o'r tŷ, ond hefyd i'r gogledd-ddwyrain, a gardd isaf yn y dyffryn i'r dwyrain. Mae gan bob un nodweddion gwahanol: mae gan yr ardd uchaf gynllun ffurfiol tra bod yr ardd isaf yn ardd coetir gwyllt.

Mae'r ardd uchaf i'r de o'r tŷ ar ddaear gwastad yn bennaf, gyda parterre ffurfiol a lawnt gyda chylch yr Orsedd gyferbyn. Prysgoed, lawntydd, gwrychoedd a thocwaith yw prif nodweddion yr ardd uchaf ynghyd â llaethdy i'r gorllewin o'r tŷ. Mae'r ardd isaf yn fwy gwyllt ac anffurfiol ac yn cynnwys llwybrau pridd ymysg coed colddail yn bennaf gyda rhai strwythurau, fel belfedir ar safle deildy'r Foneddiges Eleanor.

Yr ardd ffurfiol o flaen Plas Newydd, a gyflwynwyd ar ôl i Ferched Llangollen fyw yno (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



5. Heol y Castell a'r Dref Orllewinol

Cefndir Hanesyddol

Tyfodd Llangollen yn gyflym o ganol y 19eg ganrif o ganlyniad i ddatblygiadau diwydiannol a thrafnidiaeth yn y dref. Newidiodd yn sylweddol o'r dref a ddangosir ar fapiau'r degwm o ddechrau'r 1840au (t. 76) i'r hyn sy'n ymddangos ar argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnans yn 1874 (t. 77). Roedd y brif ardal o dwf yn seiliedig ar brif stryd newydd, Heol y Castell, a grid o strydoedd i'r gorllewin rhwng ffordd Caergybi a'r afon, gyda marchnad da byw mawr yn y canol.

Morris Roberts, adeiladwr lleol, a sefydlodd Heol y Castell yn 1860 ac yn draddodiadol fe'i gwelwyd fel catalydd y twf hwn. Fodd bynnag, roedd y man agored i'r gorllewin o'r bont wedi'i ddefnyddio at ddibenion datblygu cyfyngedig fwy na thebyg o ddechrau'r 19eg ganrif. Mae'r bwyty (29), ar gornel Heol y Castell ac Oak Street, yn rhagddyddio 1860 ac mae, fwy na thebyg, yn rhannol gynrychioli gwladychu tir newydd yn gynnar y tu hwnt i'r ganolfan hanesyddol boblog, a gafodd, o ddechrau'r 19eg ganrif, ei hosgoi gan

ffordd Caergybi ac a leihaodd mewn pwysigrwydd yn sgil gweithgarwch ar y gamlas. Roedd hefyd yn gwneud synnwyr ymarferol i godi ffordd newydd a gysylltai'r bont (a'r gamlas) â ffordd Caergybi a'r casgliad o adeiladau newydd yn Sgwâr Fictoria. Gallai Oak Street fod wedi tyfu o stryd gefn fach a oedd yn arwain i ffordd o'r hen dref. Mae'n cynnwys rhai adeiladau o ddechrau'r 19eg ganrif (5 a 7) a gallai fod wedi bod yn fan amlwg i ddechrau adeiladu ffordd gyswilt. Sut bynnag y datblygodd Heol y Castell, mae'n perthyn i'r cyfnod yn dilyn 1860 ac mae bellach yn diffinio nodweddion y dref i raddau helaeth.

Wedi'i sefydlu'n ffurfiol yn 1860, tyfodd Heol y Castell a'r tir i'r gorllewin yn gyflym. Dengys cynllun gan W. H. Hill, pensaer a syrfewr o Groesoswallt, 'Building Land in Llangollen'. Nid oes dyddiad arno, ond gall ond ôl-ddyddio 1860 o ychydig flynyddoedd am nad yw neuadd newydd y dref (1867) arno, ond mae Capel y Bedyddwyr Cymraeg o 1860 i'w weld. Cafodd rhan o Sgwâr Heol y Castell ei chlirio. Roedd wedi'i adeiladu â'i gyfeiriad tuag at Bridge Street ond roedd bellach yn rhwystro llinell Heol y Castell. Mae 29 hefyd yn ymddangos ar gynllun Hill ynghyd â nifer o adeiladau eraill ar Heol y Castell a safle marchnad newydd Smithfield.

Sgwâr Heol y Castell fel y mae heddiw. Fe'i cliriwyd yn rhannol i wneud lle i Heol y Castell (© Haulfrint y Goron: CBHC).



Dangosir gweddill yr ardal wedi'i rannu gan grid o strydoedd. Roedd Heol y Farchnad, y brif stryd i'r gorllewin o ganol Heol y Castell; West Street, a oedd yn croesi ger ei phen, a'r tir yn y canol a rannwyd gan fwy o strydoedd (East Street, Queen Street a George Street) eisoes wedi'u rhannu'n lotiau i'w gwerthu. Erbyn argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnans yn 1874, roedd yr ardal wedi'i datblygu'n sylweddol ac erbyn ail argraffiad map yr Arolwg Ordnans yn 1912, roedd yr ardal fel

y mae heddiw i raddau helaeth (t. 78). Bu rhai datblygiadau mwy diweddar gyda thai a mân ddatblygiadau diwydiannol wrth y pen dwyreiniol a rhywfaint o glirio cyfyngedig mewn perthynas â lleiniau adeilad gwreiddiol 1860 (y garej ar George Street er enghraifft), ond mae'r ardal yn parhau fel y'i diffiniwyd gan Hill oddeutu 1860 i raddau helaeth. Un o'r newidiadau pwysicaf i'r ardal fu colli'r farchnad a chlirio ei hadeiladau, ond cadwyd yr ardal fel prif faes parcio'r dref.

Mae 29 Heol y Castell yn rhagdyddio datblygiad cynlluniedig Heol y Castell yn 1860 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Mae 37-45 Heol y Castell yn grŵp tri llawr cydlynol sy'n nodweddiadol o ddatblygiad 1860 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).





Gwaith brics plaen a ffenestr oriel yn 27 Heol y Castell sydd hefyd yn dyddio o ddatblygiad 1860 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Nodweddion Adeiladu

Dominyddir nodweddion yr ardal gan ddeunyddiau a chynllun datblygiad 1860. Mae'r adeiladau brics coch ar strydoedd llydan sydd wedi'u gosod ar ffurf grid yn amlwg yn wahanol i'r adeiladau rendr a phlastr garw ar hyd strydoedd troellog a thonnog yr hen dref a'r ardaloedd i'r gogledd o'r afon ac i'r de o ffordd Caergybi. Yn yr un modd, diffinnir yr ardal ei hun gan bedair elfen glir — Heol y Castell sy'n fasnachol, safle'r farchnad, casgliad o adeiladau dinesig a chrefyddol o amgylch Parade Street a Queen Street, a thai i'r gorllewin.

Heol y Castell yw prif ardal fasnachol y dref bellach gydag adeiladau tri llawr mawr â blaenau siop ar y llawr gwaelod yn bennaf. Mae arddulliau'n amrywio a cheir parhad clir o adeiladu yn y traddodiad Sioraidd gyda dylunio cymesurol a ffenestri codi cwareli bach yn nodweddion cyffredin wedi'u cymysgu â'r defnydd o frics plaen, brics wedi'u peintio a stucco manwl. Ceir rhai adeiladau culach (15, Barnado's a 17, Cafe & Books), sydd o bosibl yn rhai o'r datblygiadau cynharaf a rhai adeiladau unigol (11). Yn fwy nodweddiadol o gyfnod 1860 mae 37–45 (odrifau) ar ochr ddwyreiniol Heol y Castell rhwng Oak Street a Berwyn Street. Wedi'u dylunio gan Hill, maent yn grŵp masnachol tri llawr cydlynol mawr sydd â blaenau siop ar y llawr gwaelod a llety uwchben.



Mae gwaith brics plaen a ffenestri oriel, ynghyd â blaen siop trawiadol wedi goroesi yn 19 Heol y Castell (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Er bod brics wedi'u peintio'r grŵp hwn yn cyferbynnu â brics plaen ac orielau 19–27 (odrifau) (rhwng bloc adeiladau Cigydd Gwyn Davies a'r siop bapur newydd ar gomel Oak Street), ceir dyluniad cymesur cyson rhwng grŵp mawr o adeiladau sy'n cynrychioli natur fawr gwaith datblygu ar ôl 1860.



Mae safle'r farchnad wedi goroesi fel man agored mawr ond collwyd prif adeilad y farchnad a adeiladwyd rhwng 1874 a 1912. Yn ddiddorol, mae'r ffaith ei fod yn cael ei ddefnyddio fel maes parcio yn golygu y parheir i ddefnyddio'r safle at ddiben ymgynnull yn y dref.

Adeiladwyd nifer o adeiladau dinesig mewn brics amryliw ar hyd Parade Street fel rhan o'r gwaith datblygu cychwynnol (neuadd y dref, gorsaf yr heddlu a'r ysgol). Er eu bod yn wahanol eu natur, maent yn amlwg yn ymgais i greu craidd newydd a oedd yn gysylltiedig ag ehangu'r dref. Hefyd, ceir y llyfrgell o ddechrau'r 1970au, sydd wedi'i hadeiladu o ddeunyddiau ac i gynllun nas gwelir unman arall yn y dref, ond sy'n gweddu i'w swyddogaeth yn llwyr.

Uchod: Neuadd y dref ar y gornel rhwng Heol y Castell a Parade Street, a adeiladwyd yn 1867 fel rhan o graidd dinesig newydd y dref (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde: Gorsaf yr heddlu ar Parade Street, a adeiladwyd yn 1867 befyd (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde isod: Yr ysgol ar Parade Street a gwblhaodd graidd newydd y dref a oedd yn tyfu yn y 1860au (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith isod: Y llyfrgell o'r 1970au ar Parade Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dominyddir tai yn yr ardal hon gan derasau deulawr, sydd â blaen sengl a dwbl. Maent naill ai wedi'u hadeiladu yn y traddodiad Sioraidd, gyda rendr neu blastr garw a manylion pensaernïol ffurfiol fel congffeini cerrig (fel 20 West Street), neu maent yn fwriadol newydd a Fictoraidd gan ddefnyddio brics coch plaen a ffenestri codi cwareli mawr (Teras Westbourne wrth ben gorllewinol Heol y Farchnad) ond gan gadw patrwm Sioraidd cymesuredd a manylion sylfaenol. Hefyd, mae cymysgedd o orffeniadau ac addumiadau sy'n helpu i leddfu natur unffurf ardal o dai sydd fel arall yn llym ac yn ailadroddus. Mae pennau ffenestri addurnol, ffenestri bae a ffenestri dormer, ac orielau i gyd yn gyffredin. Mae'r cyfuniad hwn o arddulliau a deunyddiau yn adlewyrchu natur amrywiol y gwaith datblygu a osodwyd allan ar un cam, ond a ddigwyddodd dros amser a chan wahanol ddwylo.

6. Y Gamlas

Cefndir Hanesyddol

Adeiladwyd y gamlas fel cangen o Gamlas Ellesmere (Camlas Undeb Swydd Amwythig yn ddiweddarach) pan oedd adeiladu camlesi ar

ei anterth ym Mhrydain Fawr ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif. Cwblhawyd y gamlas yn Llangollen yn 1808 er mwyn darparu cyflenwad digonol a dibynadwy o ddŵr o afon Dyfrdwy i'r rhwydwaith camlesi mwy o faint. Hefyd, helpodd i gludo deunyddiau lleol (llechi, coed ac ati) o'r ardal a chludo nwyddau i mewn i'r dref. Cafodd y gamlas ei hadeiladu mor bell â Rhaeadr y Bedol lle dargyfeiriai strwythur cored cymhleth ddŵr o'r afon i'r gamlas. Mae'r gored yn strwythur cerrig 460 troedfedd (140m) o hyd, sydd â sianel lefel uchel i dynnu'r dŵr i mewn i'r gamlas.

Roedd modd angori yn y dref a dengys argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnans yn 1874 ddeinturiau (fframiau sychu brethyn) yn y cae gyferbyn (t. 77). Codwyd adeiladau amrywiol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r gamlas fel yr hen warws a'r bwthyn cyfagos, a adeiladwyd o bosibl fel tŷ i weithiwr at ddibenion angori. Yn 1947, ychwanegwyd tŵr falf wrth ben Rhaeadr y Bedol y gamlas er mwyn rheoli'r llif o ddŵr, ond, yn gyffredinol, mae'r gamlas a'i llwybr tynnu wedi goroesi heb ddatblygiadau diweddarach ar y cyfan. Cafodd pwysigrwydd y gamlas ei gydnabod yn 2009 pan gafodd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte eu cynnwys ar Restr Treftadaeth y Byd UNESCO.

*Yr hen warws yng Nglanfa Llangollen
(© Hawlfraint y Goron: CBHC).*





*Uchod: Y bont gadwyn
â gorsaf reilffordd
Llangollen
(© Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

*Dde: Gorsaf reilffordd
y Berwyn (© Hawlfraint
y Goron: CBHC).*

*Y bont gadwyn ger
Rhaeadr y Bedol yn
y Berwyn (© Hawlfraint
y Goron: CBHC).*



Ger Rhaeadr y Bedol, yn ardal y Berwyn, ceir pont ffordd pum bwa uchel — Pont y Brenin — a adeiladwyd yn 1902–06 dros afon Dyfrdwy. Mae Gwesty'r Chainbridge ar ochr ogleddol yr afon, a groesir gan bont gadwyn — a adeiladwyd yn wreiddiol oddeutu 1820 fel bod modd mynd o'r chwareli calchfaen cyfagos i ffordd newydd Caergybi. Ar yr ochr ddeheuol, mae'r llinell reilffordd o Langollen yn stopio wrth orsaf Berwyn ac mae'n parhau tua'r gorllewin dros draphont chwe bwa.

Nodweddion Adeiladu

Mae'r gamlas yn nodwedd linellol o'r dwyrain i'r gorllewin gyda llwybr tynnu ar yr ochr ddeheuol, a leolir i'r gogledd o ffordd Wrecsam, gyda basn angori i'r gogledd-orllewin o ardal Pont Llangollen. Ymhellach i'r gogledd a'r gorllewin, mae'n cysylltu ag afon Dyfrdwy yn Rhaeadr y Bedol. I bob pwrpas, mae wedi'i chelu o olwg y dref gan strwythurau a thyfiant.

Dominyddir ardal Rhaeadr y Bedol gan y bont gadwyn a'r bont ffordd dros afon Dyfrdwy. Mae'r gwesty a'r orsaf yn darparu strwythurau cyferbyniol ar y ddwy lan mewn dyffryn coediog nas datblygwyd fel arall.



Datganiad Pwysigrwydd

Mae Llangollen yn adnabyddus fel tref fechan ag adeiladau brics coch godidog a sylweddol ar lannau afon Dyfrdwy. Ymhlith ei rhinweddau mae'r bont, y rheilffordd dreftadaeth, y gamlas, Plas Newydd — cartref Merched Llangollen — a safle Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Y tu hwnt i'r nodweddion unigol hyn mae hanes dyfnach o dref hŷn â strydoedd troellog a lonydd bach ag adeiladau carreg a phren.

Cafodd yr eglwys ei sefydlu gan Sant Collen yn y chweched neu'r seithfed ganrif ac, er iddi gael ei newid gryn dipyn, dyma'r adeilad cynharaf y gwyddys amdano yn y dref. Dynoda sefydlu anheddiad cynnar yn Nyffryn Dyfrdwy wrth groesfan naturiol ar yr afon ar un o brif lwybrau'r dyffryn i mewn ac allan o ardal fynyddig fewnol Cymru. Nid oes fawr ddim arall o'r anheddiad cynnar hwn wedi goroesi ar wahân i batrwm stryd craidd Bridge Street a Church Street, a'r lonydd bach a leolir y tu ôl gyda rhai adeiladau cynhenid bach ar wasgar. Fodd bynnag, goroesi a wnaeth y patrwm stryd hwn a pharhaodd i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r rhan hon o'r dref.

Yn y bôn, anheddiad gwledig bach oedd y dref gynnar tan ddiwedd y 18fed ganrif. Erbyn y cyfnod hwn, roedd y dref a'r ardal gyfagos wedi dod yn ganolbwynt i'r diddordeb ffasiynol mewn tirweddau gwyllt naturiol, sef y mudiad Pictiwrésg. Daeth Llangollen a Dyffryn Dyfrdwy yn un o blith nifer o ardaloedd a oedd yn enwog am eu tirweddau a chroesawodd y dref nifer fawr o ymwelwyr ac ymsefydlwyr i'r ardal. Daeth yr ymwelwyr â syniadau ffasiynol am bensaernïaeth a dylunio a wnaeth, yn anochel, ddylanwadu ar ymddangosiad y dref a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r traddodiad Sioraidd cymedrol o'r cyfnod hwn yn dal i fod yn amlwg iawn heddiw er gwaethaf gwaith ailfodelu diweddarach

Tua'r un cyfnod fwy neu lai, arweiniodd y gwaith o wella cysylltiadau ffordd rhwng Llundain a Chaerdybi (ac Iwerddon), a ddilynwyd gan adeiladu'r rheilffordd a'r gamlas, at gynydd mawr mewn gwaith datblygu. Bellach roedd y dref yn arhosfan ar rwydwaith trafndiaeth llawer ehangach. Yn sgil hyn cafwyd seilwaith

a gweithgarwch newydd. Galluogodd ddatblygu diwydiannau newydd a chreodd alw gan deithwyr a gweithwyr am lety a chyflenwadau. Roedd ynni dŵr afon Dyfrdwy wedi'i ddefnyddio at ddiben diwydiant ers tro ond roedd bellach yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu tecstilau, coed a chwarelu am lechi. Gyda'r cysylltiadau trafndiaeth gwell, ffynnu a wnaeth diwydiant a datblygu a thyfu a wnaeth twristiaeth.

Yn ystod y 19eg ganrif y tyfodd Llangollen i fod y dref rydym yn gyfarwydd â hi heddiw. Gosodwyd strydoedd newydd cyfan mewn llinellau syth o lonydd y dref bresennol. Wedi'u leinio'n aml ag adeiladau newydd mawr mewn brics coch neu mewn arddulliau Gothig ffasiynol, roeddent yn wahanol i'w rhagflaenwyr Sioraidd. Mae'r rhan fwyaf o'r prif adeiladau masnachol a dinesig yn y brif dramwyfa, Heol y Castell, sy'n diffinio'r dref heddiw, yn dyddio o'r cyfnod hwn.

Arafodd twf y 19eg ganrif ar ddechrau'r 20fed ganrif pan ddirywiodd y rhan fwyaf o'r diwydiannau gweithgynhyrchu traddodiadol a lleol. Yn eu lle, trodd y dref i'w rôl gynharach fel cyrchfan i ymwelwyr. Daeth y rheilffordd, a wnaeth oroesi toriadau'r 1960au i raddau, yn llinell hamdden treftadaeth. Adfywiwyd y gamlas hefyd ac mae'n boblogaidd gydag ymwelwyr. Sefydlwyd safle'r eisteddfod fel canolfan gerddorol ryngwladol a datblygwyd cyrchfannau eraill yn y dref ac o'i hamgylch.

Mae olion yr hanes cyfoethog hwn wedi goroesi ar ffurf y patrymau stryd ac adeiladau, sy'n creu nodweddion unigryw Llangollen. Gyda'i gilydd, maent yn helpu i adrodd stori trawsnewid tref wledig fach yn gyrcfan i ymwelwyr yn y cyfnod Sioraidd a llwyddiant a methiant tref ddiwydiannol ffyniannus Fictoriaidd. Mae ei thrawsnewidiad fel canolfan i ymwelwyr yn yr 20fed ganrif yn dibynnu ar y cymeriad hanesyddol hwn, a ddylai gael ei ddiogelu a'i barchu er budd trigolion ac ymwelwyr y dyfodol.

Ffynonellau Dethol

Argraffedig

George Borrow, *Wild Wales: Its People, Language and Scenery* (Llundain, 1862).

Edward Lhwyd, *Parochialia*, R. H. Morris (gol.)
Atodiad *Archaeologia Cambrensis*, Rhan II
(Llundain, 1910).

George Nicholson, *The Cambrian Traveller's Guide*,
trydydd argraffiad (Llundain, 1840)
<http://www.llangollen.com/cambrianguide.html>

*The Itinerary of John Leland in or about the years
1535–43.*

Thomas Pennant, *A Tour in Wales*, Cyf. I
(Llundain, 1778).

J. Quartermaine, B. Trinder ac R. Turner, *Thomas
Telford's Holyhead Road: The A5 in North Wales*,
Adroddiad Ymchwil CBA 135 (Caerefrog,
2003).

W. T. Simpson, *Some Account of Llangollen and Its
Vicinity* (Llundain, 1827).

George Virtue, *The Tourist in Wales: A Series of
Views of Picturesque Scenery, Towns, Castles,
Antiquities etc.* (Llundain ac Efrog Newydd,
1851).

Gwefannau

[http://www.cpat.org.uk/projects/longer/histland/
llangoll/1152.htm](http://www.cpat.org.uk/projects/longer/histland/llangoll/1152.htm)


[http://www.llangollen-railway.org.uk/
historyoftheline.html](http://www.llangollen-railway.org.uk/historyoftheline.html)

Ôl-nodion


1. N. Edwards, 'The Pillar of Eliseg' in D. H. Evans, *Valle Crucis Abbey* (Caerdydd, 2008), tt. 53–56.
2. Credir yn gryf mai dan ddylanwad John Trevor, esgob Llanelwy, y codwyd y bont bresennol yn 1346 ac mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion cynnar gan deithwyr o ddechrau'r 19eg ganrif ymlaen, megis Pennant a Simpson, yn gwneud yr honiad hwn. Er ei bod yn debygol i bont fodoli yma o ddiwedd y 13eg ganrif, mae'r strwythur presennol yn fwy tebygol o ddyddio o'r 16eg neu'r 17eg ganrif. R. G. Ffoulkes-Jones, 'Llangollen Bridge', *Transactions of Denbighshire Historical Society*, 28 (1979), tt. 207–13.
3. 'Llangotlan is a 9 miles above the Holt, and there is a great stone bridge over Dee Ryver. Llan gotlan village is on the south side, and Dinas Brane Castelle stondith apon an high hille on the north ripe of Dee a 3. quarters of a mile of. The castelle of Dinas Brane was never bigge thing, but sette al for strenght as in a place half inaccessible for ennemyes. It is now al in ruine: and there in the rok side that the castelle stondith on bredith 648 every yere an egle. And the egle doth sorely assaut hym that distroiththe nest, goyng down in one basket, and having a nother over his hedde to defend the sore stripe of the egle.' *The Itinerary of John Leland in or about the years 1535–43*.
4. Edward Lhwyd, *Parochialia*, R. H Morris (gol.) *Atodiad Archaeologia Cambrensis*, Rhan II (Llundain, 1910), t. 40.
5. Thomas Pennant, *A Tour in Wales*, Cyf. I (Llundain, 1778).
6. Ibid.
7. Ibid.
8. W.T. Simpson, *Some Account of Llangollen and Its Vicinity: including a Circuit of About Seven Miles* (Llundain, 1827), tt. 1–2.
9. George Borrow, *Wild Wales: Its People, Language and Scenery* (Llundain, 1862).
10. George Virtue, *The Tourist in Wales: A Series of Views of Picturesque Scenery, Towns, Castles, Antiquities etc.* (Llundain ac Efrog Newydd, 1851), t. 43.
11. George Borrow, *Wild Wales: Its People, Language and Scenery* (Llundain, 1862).
12. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Pontcysyllte Aqueduct and Canal: Nomination as a World Heritage Site — Nomination Document (2008), t. 76.
13. J. Quartermaine, B. Trinder ac R. Turner, *Thomas Telford's Holyhead Road: The A5 in North Wales*, Adroddiad Ymchwil CBA 135 (Efrog, 2003).
14. W. T. Simpson, *Some Account of Llangollen and Its Vicinity: including a Circuit of About Seven Miles* (Llundain, 1827) t. 6.
15. *Slater's Directory of Gloucester, Hereford, Monmouth, Shropshire and North and South Wales* (Manceinion a Llundain, 1859), tt. 51–54.
16. *Slater's Directory of North & South Wales* (Manceinion, 1880) tt. 125–29.
17. Ifor Edwards, F. Foulkes ac Iorwerth Roberts, 'Industry at Llangollen', *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, 18 (1969), tt. 136–54.
18. R. G. Ffoulkes-Jones, 'Llangollen Bridge', *Transactions of Denbighshire Historical Society*, 28 (1979), tt. 207–13.
19. Yn debygol o fod yn argae ar gyfer melin lle mae'r nant hon yn cyfarfod ag afon Dyfrdwy.
20. Dywed W.T. Simpson fod y marchnady 'once stood where the Hand Gardens now are, and is a convenience much wanted'. Cyfeiria 'Hands Gardens' at erddi Gwesty'r Hand. W.T. Simpson, *Some Account of Llangollen and Its Vicinity: including a Circuit of About Seven Miles* (Llundain, 1827), t. 5.

21. Arolwg o 1791 o sawl ystad yn Sir Ddinbych a oedd yn perthyn i'r Parch. Edward Roberts. Archifau Sir Ddinbych, DD/DM/736/1.
22. Damau o gofiant John Hughes, gweithgynhyrchwr gwlan, Llangollen. Archifau Sir Ddinbych, DRO NTD/1304.
23. Ibid.
24. Ibid.
25. Ibid.
26. Ibid.
27. Mae bellach wedi'i gosod mewn panel petryal yn Neuadd y Seiri Rhyddion ar Hall Street. Yn ôl y sôn, dylai fod wedi'i chymryd o'r bont yn ystod y gwaith lledaenu yn 1873 ac mae'n cyfeirio at ailadeiladu'r bont gan y saer maen Rondle Reade am £250. R. G. Ffoulkes-Jones, 'Llangollen Bridge', *Transactions of Denbighshire Historical Society*, 28 (1979), tt. 207–13.
28. Arolwg o 1791 o sawl ystad yn Sir Ddinbych a oedd yn perthyn i'r Parch. Edward Roberts. Archifau Sir Ddinbych, DD/DM/736/1.
29. Mae'n debygol mai mynachod Abaty Glyn y Groes a sefydlodd y felin. Mae dogfen o'r 13eg ganrif ynghylch anghydfod pysgota rhwng y mynachod a rhyddfreinwyr y dref yn crybwyll y felin.
30. Cafodd y felin ei rheoli gan John Hughes a adeiladodd Fila Dee gyfagos iddo'i hun yn 1837.
31. Ifor Edwards, F. Foulkes ac Iorwerth Roberts, 'Industry at Llangollen', *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, 18 (1969), tt. 136–54.
32. Mae'n dra thebygol bod gan 'Old Mill' a ddangosir ar argraffiad cyntaf map Arolwg Ordnans 1874 hanes cynnar ac y cafwyd achos cynnar o Gronni dŵr y nant ger cyffordd Church Street a ffordd Caergybi (t. 77).
33. I'r adeilad hwn y symudwyd carreg Rondle Reade, a ddarganfuwyd yn ystod y gwaith ar Bont Llangollen yn y 1870au. Mae 228 a 229 — Skin House and House a Skin House — yn ymddangos ar fap degwm Llangollen: map cyfansawdd o drefgorddau Abad Llangollen, Llangollen Fawr, Llangollen Fechan, Bache, Trevor Ucha a Phengwern, dyddiedig 1838–1845, Archifau Sir Ddinbych, DRO NTD/1705 (t. 76).
34. W. T. Simpson, *Some Account of Llangollen and Its Vicinity: including a Circuit of About Seven Miles* (Llundain, 1827), tt. 3–4.
35. S. Lewis, *A Topographical Dictionary of Wales*, Cyf. II, trydydd argraffiad (Llundain, 1849), tt. 42–46.
36. Arolwg o 1791 o sawl ystad yn Sir Ddinbych yn perthyn i'r Parch. Edward Roberts. Archifau Sir Ddinbych, DD/DM/736/1 (t. 75). R. G. Ffoulkes-Jones, 'Llangollen Bridge', *Transactions of Denbighshire Historical Society*, 28 (1979), tt. 207–13.
37. Map y degwm Llangollen: map cyfansawdd o drefgorddau Abad Llangollen, Llangollen Fawr, Llangollen Fechan, Bache, Trevor Ucha a Phengwern, dyddiedig 1838–1845, Archifau Sir Ddinbych, DRO NTD/1705.
38. Arolwg o 1791 o sawl ystad yn Sir Ddinbych a oedd yn perthyn i'r Parch. Edward Roberts. Archifau Sir Ddinbych, DD/DM/736/1 (t. 75).
39. Mae Tŷ'r Eglwys yn dyddio o 1786 ond cafodd ei addasu ar ôl dyfodiad ffordd Caergybi. Mae'n enghraifft o ehangu ddiweddi y 18fed ganrif sy'n rhagddyddio'r newidiadau a ddeilliodd o ffordd Caergybi.
40. Tybir bod hwn yn adeilad gwahanol i'r hyn a ddangosir ar argraffiad cyntaf y map Arolwg Ordnans fel y ficerdy, a leolir ymhellach i'r de ac yn ei erddi ei hun, ac sy'n dyddio o ganol y 19eg ganrif siŵr o fod.
41. Map y degwm Llangollen: map cyfansawdd o drefgorddau Abad Llangollen, Llangollen Fawr, Llangollen Fechan, Bache, Trevor Ucha a Phengwern, dyddiedig 1838–1845, Archifau Sir Ddinbych, DRO NTD/1705 (t. 76).

I Arolwg o 1791 o Langollen




2 Map y Degwm cyfansawdd o Langollen 1838–45




Archifau Sir Ddinbych, DRO/1705

3 Rhan o Argraffiad Cyntaf Map Arolwg Ordnans 1874




Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans (25 modfedd) — (h) a hawl croenfa ddara Haelffraint y Goron a Landmark Information Group Ltd (Cedwir pob hawl 2016)

4 Rhan o Ail Argraffiad Map Arolwg Ordnans 1912




Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans (25 modfedd) — (b) a hawl cronfa ddata 'Hawffranz y Goron a Landmark Information Group Ltd' (Cedwir pob hawl 2016)

5 Pob Ardal â Nodweddion â Dynodiadau'r Amgylchedd Hanesyddol




Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron 2015. Mae unrhyw achos o atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: I00021874

6 Pob Ardal â Nodweddion




Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron 2015. Mae unrhyw achos o atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100021874

7 Y Dref Gynnar (I)




Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron 2015. Mae unrhyw achos o atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100021874

8 Twf yn y 19eg Ganrif: O amgylch y Gamlas a'r Rheilffordd (2)




Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron 2015. Mae unrhyw achos o atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: I00021874

9 Twf yn y 19eg Ganrif: Ffordd Caergybi (3)




Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawffraint y Goron 2015. Mae unrhyw achos o atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100021874

10 Plas Newydd (4)



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawffraint y Goron 2015. Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawffraint y Goron 2015.

II Heol y Castell a'r Dref Orllewinol (5)



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawfraint y Goron 2015. Mae unrhyw achos o atzynyhychu heb awdurdod yn torri hawfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100021874

12 Y Gamlas (6)

